

Pwysau Gweithredol a Chost Tymor Byr i Ganolig sy'n Effeithio ar Ofal Cymdeithasol yng Nghymru

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru



LE
Wales

Mawrth 2020

Gwybodaeth am LE Wales

Mae LE Wales yn ymgynghoriaeth sy'n darparu cyngor economaidd a pholisi i gleientiaid yng Nghymru ac mae'n enw masnach London Economics Limited.

Mae London Economics yn un o brif ymgynghoriaethau economeg a pholisi arbenigol Ewrop gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain, Brwsel, a Delyn. Rydym yn ymgynghoriaeth economeg flaenllaw sy'n arbenigo mewn economeg polisi cyhoeddus. Fel ymgynghorwyr economaidd arbenigol, rydym yn cyflwyno gwasanaeth gwahanol i'r hyn a gynigir gan y cwmnïau cyfrifyddu mawr a'r economegwyr academiaidd yn yr ystyr y gallwn gynnig cywirdeb academiaidd a rheolaeth briodol dros brosiectau i'n cleientiaid. Mae ein hymgyngorwyr yn cynnig ystod gynhwysfawr o sgiliau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar ddadansoddi economaidd ac ariannol a datblygu polisi.

Mae ein tîm yn cynnwys economegwyr medrus, sy'n elwa ar gefndiroedd deallusol trwyadl. Mae gan bob un o'n huwch ymgynghorwyr economaidd raddau economeg ôl-raddedig o brifysgolion blaenllaw ac mae ganddynt gyfoeth o brofiad academiaidd ac ymarferol. Mae LE Wales yn gallu cyfuno cywirdeb academiaidd a chontract arbenigol.

Y Pencadlys: Somerset House, New Wing, Strand, Llundain, WC2R 1LA, y Deyrnas Unedig.

g: www.le-wales.co.uk	e: info@le-wales.co.uk
ff: +44 (0)2920 660 250	ff: +44 (0)2920 660 251

Awduron

Siôn Jones

Pietro Patrignani

Brian Cabaco

Clawr blaen: llun gan [Matt Sawyers](#) o [Pixabay](#)

Rhif ISBN: 978-1-80195-025-1

Crynodeb Gweithredol	ii
1 Modelu'r sefyllfa llinell sylfaen	6
2 Sefyllfa yn seiliedig ar dueddiadau diweddar ('Sefyllfa 1')	9
3 Modelu gyrwyr cost ychwanegol	12
3.1 Disgrifiad byr o'r model	13
3.2 Disgrifiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar gostau darparu gwasanaethau	13
3.3 Sefyllfaoedd ychwanegol	19
4 Amcanestyniadau cost	22
4.1 Amcanestyniadau gwariant cyfredol	22
4.2 Amcanestyniadau gwariant cyfalaf	24
Mynegai Tablau, Ffigurau a Blychau	26
Atodiad 1 Methodoleg a ddefnyddiwyd yn y Sefyllfa Llinell Sylfaen	28
Atodiad 2 Pwysau cost ychwanegol: tystiolaeth ategol	30
A2.1 Pwysau ariannol gofal cymdeithasol yng Nghymru: amcangyfrifon blaenorol	30
A2.2 Galw ychwanegol	33
A2.3 Pwysau cost uned	37
A2.4 Gwasanaethau ataliol	42
A2.5 Technolegau newydd	50
A2.6 Gwasanaethau plant	57
Atodiad 3 Tystiolaeth o arolwg o awdurdodau lleol Cymru	64
A3.1 Cyflwyniad	64
A3.2 Pwysau cost uned	64
A3.3 Ffactorau sy'n lleihau costau unedau	64
A3.4 Effaith newidiadau deddfwriaethol diweddar	65
A3.5 Gallu'r sector gofal cymdeithasol i ateb y galw	65
A3.6 Ffactorau sy'n effeithio ar nifer y gwasanaethau y bydd galw amdanynt yn y dyfodol	66
A3.7 Pwysau cost gweithredol eraill	66

Crynodeb Gweithredol

Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyflwyno amcanestyniadau o wariant cyfredol net gan awdurdodau lleol ar wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23. Mae'r amcanestyniadau'n cwmpasu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran (plant, oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn), yn ystyried gwariant net (h.y. ac eithrio incwm gan gleientiaid a ffynonellau eraill) a chânt eu nodi i gyd mewn termau nominal (neu arian parod). Mae'r modelu a'r amcanestyniadau yn seiliedig ar ddata oedd ar gael ar 31 Awst 2019.

Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch anghenion gwariant gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol ac felly rydym yn cyflwyno nifer o sefyllfaoedd gwahanol ar gyfer gwariant:

- **'Sefyllfa llinell sylfaen'**: mae hyn yn tybio mai dim ond tueddiadau demograffig (twf rhagamcanol ym mhob grŵp oedran) a chwyddiant fydd yn llywio gwariant cyfredol net ar gyfer pob grŵp oedran;
- **'Sefyllfa 1'**: mae hyn yn tybio y bydd gwariant cyfredol net yn parhau i dyfu ar yr un gyfradd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (rhwng 2011/12 a 2017/18);
- **Sefyllfa 'Cost ganolog'**: mae hyn yn defnyddio'r sefyllfa llinell sylfaen ac yn ei haddasu ar gyfer ffactorau amrywiol sy'n gysylltiedig â gwariant gofal cymdeithasol, gan gynnwys: pwysau cost cyflog; galw ychwanegol yn y dyfodol; effaith gwasanaethau ataliol ac integreiddiol; a thechnolegau newydd;
- **Sefyllfa 'cost isel'**: mae hyn yn addasu rhagdybiaethau'r sefyllfa cost ganolog i ddarparu amcangyfrif cost is;
- **Sefyllfa 'cost uchel'**: mae hyn yn addasu rhagdybiaethau'r sefyllfa cost ganolog i ddarparu amcangyfrif cost uwch;

Dangosir yr amcanestyniadau gwariant ar gyfer pob sefyllfa yn Tabl 1. Yn y sefyllfa llinell sylfaen rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant net yn cynyddu o £1,812M yn 2017/18 i £2,094 erbyn 2022/23 (cynnydd cronol o 15.6% dros bum mlynedd ariannol). Mae Sefyllfa 1 a'r sefyllfa 'Cost ganolog' yn dangos cynnydd cronol ychydig yn uwch dros yr un cyfnod (17.5% a 19.5%).

Tabl 1 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – sefyllfaoedd gwahanol


	Gwirioneddol	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Gwahaniaeth gyda llinell sylfaen yn 2022/23	Newid 2017/18 i 2022/23	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog 17/18 i 22/23
	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23			
	£M	£M	£M	£M	£M	£M	£M		
Sefyllfa llinell sylfaen	£1,812M	£1,867M	£1,917M	£1,970M	£2,028M	£2,094M	-	15.6%	2.9%
Sefyllfa 1	£1,812M	£1,871M	£1,932M	£1,995M	£2,061M	£2,129M	£35M	17.5%	3.3%
Sefyllfa ‘cost ganolog’	£1,812M	£1,879M	£1,941M	£2,008M	£2,081M	£2,165M	£71M	19.5%	3.6%
Sefyllfa ‘cost uchel’	£1,812M	£1,923M	£2,034M	£2,151M	£2,278M	£2,421M	£327M	33.6%	6.0%
Sefyllfa ‘cost isel’	£1,812M	£1,854M	£1,891M	£1,930M	£1,973M	£2,024M	-£70M	11.7%	2.2%

Nodyn: Mae'r celloedd â chysgod llwyd yn cynrychioli amcanestyniadau; y celloedd heb gysgod sy'n cynrychioli ffigurau gwirioneddol. Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm). Mae'r sefyllfaoedd Canolog/Cost uchel/Cost isel yn adlewyrchu'r sefyllfa llinell sylfaen a'r paramedrau a gyflwynir yn Nhabl 7. Mae Sefyllfa 1 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Pob gwerth enwol (arian parod).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

Dangosir yr amcanestyniadau hyn yn Ffigur 1, sydd hefyd yn dangos y lledaeniad rhwng y sefyllfaoedd 'Cost uchel' a 'Cost isel', y mae'r ddau ohonynt yn dangos cynnydd mewn costau. Mae'r sefyllfa 'Cost uchel' yn awgrymu'r posibilrwydd o gynnydd sylweddol iawn mewn gwariant: 33% o'i gymharu â 2017/18 erbyn 2022/23.

Ffigur 1 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net mewn gwahanol sefyllfaoedd (£ miliwn)



Nodyn: Mae'r cysgod llwyd tywyll yn dangos tair blynedd ariannol amcanestyniadau'r ymarfer modelu (2020/21 i 2022/23), tra mae'r cysgod llwyd ysgafn yn cynrychioli blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 (y bu'n rhaid ei rhagweld gan nad oes data gwirioneddol ar gael eto). Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm). Mae'r sefyllfaoedd Canolog/Cost uchel/Cost isel yn adlewyrchu'r sefyllfa llinell sylfaen a'r paramedrau a gyflwynir yn Nhabl 7. Mae Sefyllfa 1 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Pob gwerth enwol (arian parod).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

Mae'r sefyllfa 'linell sylfaen' a 'Sefyllfa 1' yn gymharol syml, gyda'r sefyllfa 'linell sylfaen' yn seiliedig dim ond ar newidiadau yn y dyfodol o ran maint a strwythur y boblogaeth ac ar chwyddiant yn y dyfodol, tra mae 'Sefyllfa 1' yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol mewn gwariant gofal cymdeithasol yn parhau i'r dyfodol. Ceir manylion am sut y caiff y sefyllfaoedd hyn eu llunio ym Mhenodau 1 a 2, ac yn Atodiad 1.

Mae'r sefyllfaoedd 'cost ganolog', 'cost uchel' a 'chost isel' yn fwy cymhleth gan eu bod yn cymryd y sefyllfa Llinell Sylfaen fel eu man cychwyn ac yna'n ymgorffori tybiaethau ychwanegol ynghylch sut y gallai ffactorau eraill effeithio ar wariant gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Er mwyn llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y tybiaethau hyn, rydym wedi cynnal adolygiadau byr o'r dystiolaeth sydd ar gael yn defnyddio cymysgedd o ffynonellau gan gynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd, ymchwil flaenorol ac arolwg ansoddol byr o awdurdodau lleol Cymru. Yn gyffredinol, mae'r sylfaen dystiolaeth yn awgrymu amrywiaeth o ffactorau a allai ddylanwadu ar wariant gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gyda rhai ffactorau â'r potensial i gynyddu gwariant a rhai â'r potensial i leihau gwariant. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn rhoi arweiniad cryf ar faint yr effeithiau hyn nac ar ba mor gyflym y gallai effeithiau ddigwydd. Y ffactorau a aseswyd gennym oedd:

- Pwysau cost uned (e.e. cyflogau'n cynyddu'n gyflymach na chwyddiant);
- Galw ychwanegol (h.y. nid yw darparu gwasanaethau ar hyn o ddydd i ddydd neu yn y dyfodol yn gallu ateb y galw, na'r anghenion, yn llawn ac mae galw newydd yn debygol o godi yn y dyfodol);
- Gwasanaethau gofal ataliol ac integreiddiol (e.e. arwain at lai o angen am wasanaethau gofal);
- Technolegau newydd (lleihau cost darparu gwasanaethau).

Mae Pennod 3 yn crynhoi sut y gallai'r ffactorau hyn effeithio ar wariant gofal cymdeithasol yn y dyfodol ac yn nodi'r tybiaethau y gwnaethom eu defnyddio i fodelu'r sefyllfaoedd 'cost ganolog', 'cost uchel' a 'chost isel'. Ceir rhagor o dystiolaeth ategol yn ymwneud â'r ffactorau hyn yn Atodiad 2.

1 Modelu'r sefyllfa llinell sylfaen

Bydd amcanestyniadau llinell sylfaen yn rhagdybio y bydd twf mewn gwariant net yn y dyfodol (hyd at 2022/23) yn adlewyrchu tueddiadau demograffig ym mhob grŵp oedran (o dan 18, 18-64 a 65+)¹ a'r chwyddiant a ddisgwylir ar gyfer y cyfnod. Cyflwynir yr holl dybiaethau a diffiniadau a ddefnyddir yn y sefyllfa llinell sylfaen yn Atodiad 1 ac maent yn seiliedig ar ddata oedd ar gael ar 31 Awst 2019.

Cyflwynir canlyniadau o'r sefyllfa llinell sylfaen yn Tabl 2, Ffigur 2 a Ffigur 3, ynghyd â'r data diweddaraf sydd ar gael ar wariant net gwirioneddol (2017/18).

Rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant cyfredol net ar wasanaethau gofal cymdeithasol (yn cynnwys plant ac oedolion) yn cynyddu o **£1.812** miliwn yn 2017/18 i **£1.970** miliwn yn 2020/21, **£2,028** miliwn yn 2021/22 a **£2,094** miliwn yn 2022/23

Gan ystyried pob grŵp oedran, rhagwelir y bydd y gwariant cyfredol net ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn cynyddu:

- o **£613M** yn 2017/18 i **£695M** yn 2022/23 ar gyfer y grŵp oedran **dan 18**;
- o **£613M** yn 2017/18 i **£676M** yn 2022/23 ar gyfer y grŵp oedran **18-64**;
- o **£586M** yn 2017/18 i **£723M** yn 2022/23 ar gyfer y grŵp oedran pobl hŷn **65+**;

Tabl 2 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol: 2020/21 i 2022/23 - Sefyllfa llinell sylfaen

	Gwirioneddol	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad
Grŵp cleientiaid	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
	£M	£M	£M	£M	£M	£M
Dan 18 (Plant a Theuluoedd)	£613M	£629M	£643M	£659M	£677M	£695M
18-64 (Oedolion o Oedran Gweithio)	£613M	£628M	£639M	£651M	£664M	£676M
65+ (Pobl hŷn)	£586M	£611M	£635M	£659M	£687M	£723M
Cyfanswm	£1,812M	£1,867M	£1,917M	£1,970M	£2,028M	£2,094M

Nodyn: Mae'r celloedd â chysgod llwyd yn cynrychioli amcanestyniadau; y celloedd heb gysgod sy'n cynrychioli ffigurau gwirioneddol. Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

¹ Rhannwyd y grŵp oedran 65+ hefyd yn dri is-grŵp er mwyn gwella cywirdeb yr amcangyfrifon.


Tabl 3 Cyfraddau twf mewn gwariant net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2018/19 a 2022/23 yn y sefyllfa llinell sylfaen

Grŵp cleientiaid	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Dan 18 (Plant a Theuluoedd)	2.5%	2.3%	2.5%	2.7%	2.7%
18-64 (Oedolion o Oedran Gweithio)	2.4%	1.9%	1.8%	2.0%	1.9%
65+ (Pobl hŷn)	4.2%	3.9%	3.9%	4.2%	5.2%
Cyfanswm	3.0%	2.7%	2.7%	2.9%	3.3%

Nodyn: caiff y cyfraddau twf hyn eu llunio yn ôl y sefyllfa llinell sylfaen sy'n ystyried newidiadau demograffig a chwyddiant.

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.


Ffigur 2 Rhagamcan o Gyfanswm y Gwariant Cyfredol Net (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen



Nodyn: Mae'r cysgod llwyd tywyll yn dangos tair blynedd ariannol amcanestyniadau'r ymarfer modelu (2020/21 i 2022/23), tra mae'r cysgod llwyd ysgafn yn cynrychioli blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 (y bu'n rhaid ei rhagweld gan nad oes data gwirioneddol ar gael eto). Mae'r colofnau glas tywyll yn cynrychioli gwariant gwirioneddol, tra mae'r colofnau glas streipïog yn cynrychioli amcanestyniadau. Mae llinell duedd unionlin wedi'i hychwanegu mewn dotiau llwyd.

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

Ffigur 3 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net fesul grŵp cleientiaid (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen



Nodyn: Mae'r cysgod llwyd yn dangos tair blynedd ariannol yr amcanestyniadau (2020/21 i 2022/23). Mae'r llinellau solet yn cynrychioli gwariant cyfredol net gwirioneddol, tra mae'r llinellau dotiau yn cynrychioli rhagamcan o'r gwariant cyfredol net

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.


2 Sefyllfa yn seiliedig ar dueddiadau diweddar ('Sefyllfa 1')

Rydym hefyd wedi llunio amcanestyniadau gan ddefnyddio sefyllfa amgen ('Sefyllfa 1') lle rydym yn tybio bod **gwariant cyfredol net yn parhau i dyfu ar yr un gyfradd ag yr ydym wedi gweld yn ystod y blynyddoedd diwethaf**. Er mwyn cyfrifo'r gyfradd dwf, defnyddiwyd y newidiadau blynyddol a welwyd yn ystod y saith mlynedd diwethaf (rhwng 2011/12 a 2017/18) ac eithrio, ar gyfer pob grŵp cleient, yr uchafswm a'r gwerth lleiaf a welwyd yn y cyfnod. Mewn geiriau eraill, yn y sefyllfa hon rydym yn tybio y bydd y newid mewn gwariant net yn parhau i esblygu yn dilyn tueddiadau diweddar mewn gwariant net, waeth beth fo'r tueddiadau demograffig.

Yn Ffigur 4 rydym yn cymharu'r amcanestyniadau ar gyfer cyfanswm y gwariant net gan ddefnyddio'r Sefyllfa Llinell Sylfaen a Sefyllfa 1. Cyflwynir y newidiadau blynyddol cyfartalog a ddefnyddir yn y sefyllfa hon hefyd yn Tabl 4 ac maent gyfystyr â 4.9%, 2.4% a 2.5% ar gyfer y grwpiau 'o dan 18', '18-64' a '65+' yn y drefn honno.

Pan gymharwn amcanestyniadau Sefyllfa 1 â'r amcanestyniadau Llinell Sylfaen, gallwn weld bod yr amcanestyniadau'n eithaf tebyg yn y ddwy sefyllfa ar gyfer y grŵp o 'oedolion o oedran gweithio', tra mae'r amcanestyniadau o dan Sefyllfa 1 ar gyfer 'plant' yn uwch o'i gymharu â'r Llinell Sylfaen (gan fod gwariant ar y grŵp hwn wedi gweld twf cymharol gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf); ar y llaw arall, rhagwelir y bydd y grŵp o 'bobl hŷn' yn cynyddu o ran maint dros y tair blynedd ariannol nesaf, gan arwain at amcangyfrifon uwch yn y Sefyllfa Sylfaenol o'i gymharu â Sefyllfa 1. Rhagwelir y bydd y gwariant cyfredol net cyffredinol yn cynyddu i bron £2,000 miliwn yn 2020/21 a £2,129 miliwn erbyn 2022/23, o'i gymharu â £1,970 a £2,094 ar gyfer y sefyllfa Llinell Sylfaen yn yr un blynyddoedd

Ffigur 4 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen a Sefyllfa 1



Nodyn: Mae'r cysgod llwyd yn dangos blynyddoedd ariannol yr amcanestyniadau. Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net. Mae Sefyllfa 1 yn defnyddio newidiadau blynyddol mewn gwariant a welwyd rhwng 2011/12 a 2017/18 i ragweld Gwariant Cyfredol Net.

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

Tabl 4 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – Sefyllfa 1

	% newid*	Gwirionedd-ol	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad
Grŵp cleientiaid	2011/12 i 2017/18	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
		£M	£M	£M	£M	£M	£M
Dan 18 (Plant a Theuluoedd)	4.9%	£613M	£643M	£674M	£707M	£742M	£778M
18-64 (Oedolion o Oedran Gweithio)	2.4%	£613M	£628M	£642M	£658M	£673M	£689M
65+ (Pobl hŷn)	2.5%	£586M	£600M	£615M	£631M	£646M	£662M
Cyfanswm		£1,812M	£1,871M	£1,932M	£1,995M	£2,061M	£2,129M

Nodyn: *Cyfartaledd y newidiadau blynyddol rhwng 2011/12 a 2017/18 ac eithrio'r gwerthoedd isaf ac uchaf a welwyd ar gyfer pob grŵp cleientiaid. Mae'r celloedd â chysgod llwyd yn cynrychioli amcanestyniadau; y celloedd heb gysgod sy'n cynrychioli ffigurau gwirioneddol. Mae Sefyllfa 1 yn defnyddio newidiadau blynyddol mewn gwariant a welwyd rhwng 2011/12 a 2017/18 i ragweld Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm)

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru a data'r SYG.

3 Modelu gyrrwyr cost ychwanegol

Rydym bellach yn mynd y tu hwnt i'r amcanestyniadau sefyllfa llinell sylfaen ac yn archwilio'r ffactorau ychwanegol amrywiol a allai effeithio ar wariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn y tymor byr i ganolig. Mae'r holl ffactorau hyn wedi'u modelu ar y sefyllfa llinell sylfaen ac maent yn effeithio ar amcangyfrifon costau ym mhob blwyddyn.

Mae'r ffactorau a ystyrir yn y model wedi'u seilio'n bennaf ar dystiolaeth a gasglwyd mewn adolygiad byr o'r dystiolaeth, gan gynnwys arolwg ansoddol a gynhaliwyd gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Darparwyd cipolwg ychwanegol drwy ryngweithio â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn cyflwyno amcangyfrif 'canolog' ar gyfer pob ffactor. Fodd bynnag, fel yr eglurir isod yn fanwl, yn gyffredinol nid oes unrhyw dystiolaeth glir i gefnogi unrhyw ragdybiaeth benodol am effaith y ffactorau hyn ar wariant gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r daenlen ategol, sy'n cynhyrchu'r amcanestyniadau, yn caniatáu i ddefnyddwyr addasu'r paramedrau a ddefnyddir yn y model.

Cafodd y paramedrau ychwanegol hyn eu modelu'n wahanol ar gyfer oedolion a phlant am amryw o resymau:

- Mae'r math o wasanaeth a ddarperir gryn dipyn yn wahanol ymysg plant ac oedolion;
- Mae tueddiadau yn y galw a'r cyflenwad o wasanaethau hefyd yn debygol o fod yn wahanol iawn;
- Mae llenyddiaeth berthnasol fel arfer wedi canolbwyntio ar bobl hŷn felly nid yw'r effaith gyfatebol ar blant yn hysbys (os yw'n berthnasol o gwbl);
- Mae gwariant ar wasanaethau i Blant a Theuluoedd fel y cânt eu diffinio ar wefan StatsCymru yn cwmpasu categorïau heterogenedd iawn², o Ganolfannau Plant i Blant sy'n derbyn gofal (sydd ei hun yn cynnwys gofal maethu, gofal preswyl ac ati) i wasanaethau Cyfiawnder Ieuentid ac ati.
- Er bod y duedd ar gyfer oedolion o oedran gweithio yn debygol o fod yn wahanol i dueddiadau ar gyfer pobl hŷn, mae'r categorïau gwasanaethau'n gyson ac, oherwydd diffyg tystiolaeth benodol ar gyfer y categori, penderfynwyd defnyddio'r un tybiaethau ar gyfer yr holl wasanaethau oedolion (ac eithrio galw ychwanegol, a gaiff ei bennu i sero ar gyfer oedolion o oedran gweithio);

Rydym yn disgrifio'n fanwl isod pa feysydd rydym yn eu hystyried yn y model ac yn cyfeirio'n ôl at y llenyddiaeth berthnasol pan fo'n bosibl:

² Ewch i <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Social-Services/social-services-socialservicesrevenueexpenditure-by-clientgroup>

3.1 Disgrifiad byr o'r model

Mae modelu pwysau ac arbedion cost gweithredol yn y dyfodol yn cael ei ddefnyddio ar y model llinell sylfaen. Mewn geiriau eraill, mae'r sbardunau cost ac effeithlonrwydd a ystyrir wedi'u cynllunio i effeithio ar wariant net yn ychwanegol at dueddiadau demograffig a chwyddiant. Mae paramedrau wedi'u cynllunio i effeithio ar amcanestyniadau o 2018-2019 (gan fod data gwirioneddol ar gael hyd at 2017/18) hyd at 2022-2023. Yn y testun rydym yn cyfeirio'n fanwl at dair blynedd ariannol yr adolygiad gwariant disgwylidig (2020/21 i 2022/23).

Rydym wedi caniatáu i effaith pob ffactor gymryd rhywfaint o amser i effeithio'n llawn ar wariant (neu i gael eu gweithredu'n llawn). Pan fyddwn yn cyfeirio at 'nifer y blynnyddoedd' rydym yn tybio bod newidiadau'n digwydd yn dechrau o 2018/19, fel bod y cyfnod o bum mlynedd yn cwmpasu hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 (sydd wedi'u cynnwys yn amcanestyniadau y llynedd). Os yw'r gwerth wedi'i bennu i flwyddyn, mae'r newid yn cael effaith lawn ym mlwyddyn 1 ac mae'r duedd yn cael ei llywio gan ddemograffeg a chwyddiant ar ôl hynny (h.y. mae'r amcanestyniad sylfaenol yn cael ei uwchraddio gan yr un ffactor ym mhob blwyddyn). Os yw'r gwerth wedi'i bennu i fwy na 5 mlynedd, nid yw'r effaith yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn diwedd 2022/23.

Fel y soniwyd, effaith y gwahanol ffactorau yw cynyddu neu ostwng yr amcanestyniadau llinell sylfaen ar gyfer gwariant net ym mhob blwyddyn. Pan fydd yr effaith yn digwydd dros nifer o flynyddoedd (e.e. 5% mewn 5 mlynedd), bydd yr effaith flynyddol yn cynyddu o ran y costau llinell sylfaen o swm cyfartal flwyddyn ar ôl blwyddyn (e.e. 1% ym mlwyddyn 1, 2% ym mlwyddyn 2, hyd at 5% ym mlwyddyn 5).

3.2 Disgrifiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar gostau darparu gwasanaethau

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'n gryno y ffactorau amrywiol sy'n debygol o effeithio ar gost darparu gwasanaethau yn y tymor byr i ganolig. Cyflwynir adolygiad mwy systematig o'r dystiolaeth bresennol yn Atodiad 2. Er ein bod wedi nodi ffactorau sy'n effeithio ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion (gan ragdybio effaith debyg ar oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn, oherwydd diffyg tystiolaeth benodol ar gyfer oedolion o oedran gweithio), mae categorïau gwariant ar gyfer plant yn nodi gwasanaethau heterogenaidd iawn ac wedi'u modelu drwy baramedr generig sy'n nodi pwysau cost neu arbedion cost.

Dylid cydnabod bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar gostau a maint pob effaith. Mae defnyddwyr yn rhydd i addasu'r tybiaethau hyn wrth ddefnyddio'r model.

Galw ychwanegol (pobl hŷn yn unig)

Mae'r cysyniad o 'alw ychwanegol' a ddefnyddir yma yn nodi pwysau pellach ar gostau yn y tymor byr i ganolig sy'n deillio o amrywiaeth o ffactorau:

- Pwysau ar awdurdodau lleol i fodloni'r galw ychwanegol presennol am wasanaethau gofal cymdeithasol, h.y. unigolion sydd am dderbyn gwasanaethau gofal (ond nad ydynt yn derbyn unrhyw rai ar hyn o bryd) neu unigolion sy'n derbyn rhyw fath o wasanaethau gofal ond a allai fod eisiau derbyn gwasanaethau pellach neu wahanol. Er nad yw'r holl unigolion hyn efallai'n gymwys ar unwaith ar gyfer cynllun gofal a chymorth, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos:
 - Ar gyfer pobl hŷn, rhwng 2010/11 a 2017/18 gwelwyd gostyngiad o tua 17% i nifer y gwasanaethau a ddarperir. Wedi'i fynegi fel cymhareb o'r boblogaeth berthnasol sy'n cynrychioli gostyngiad o bron 20%. Ni welwyd tuedd debyg ar gyfer oedolion o oedran gweithio;
 - Gostyngiad tebyg (-20%) ar gyfer gwariant cyfredol net real fesul unigolyn 65 oed a throsodd rhwng y lefel cyn argyfwng (2007/08) a 2017/18;
 - Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod tua 11% o'r ymatebwyr wedi derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol (NSW 2018/19) ond dywedodd 4% arall eu bod 'wedi bod angen help gan wasanaethau gofal cymdeithasol ond heb ei gael'. Mae'r ddwy gyfran yn uwch ar gyfer y grŵp o bobl hŷn;
 - Roedd gwybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol Cymru yn dangos y gallai ffactorau fel materion capasiti ymhlith darparwyr, lefelau staffio, adnoddau ariannol cyfyngedig cyffredinol arwain at oedi i asesiadau a phecynnau gofal y cytunwyd arnynt ar gyfer grwpiau anghenion is;
 - Gall unigolion ofyn am gael eu hail-asesu os nad yw'r asesiad cychwynnol wedi arwain at gynllun gofal a'u bod yn teimlo y dylent dderbyn gwasanaethau gofal; gwelwyd yn y data ar gyfer StatsCymru bod nifer y ceisiadau am ail-gynnal asesiadau (a nifer yr ail asesiadau a gynhaliwyd) wedi cynyddu mwy na 25% rhwng 2016/17 a 2017/18;
 - Disgwyliadau: nododd awdurdodau lleol hefyd fod cynnydd mewn taliadau am wasanaethau ac yn y Dreth Gyngor yn codi disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ar adeg pan fo'r gwasanaeth, mewn gwirionedd, yn cymryd mwy o amser i'w drefnu ac y gellir ei leihau hefyd ar gyfer grŵp anghenion is;
- Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, mae pwysau pellach ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn debygol o godi:
 - Y galw cynyddol gan y bobl hynny nad oes ganddynt ddibynyddion, neu'r bobl hynny sy'n dibynnu ar ofalwyr hŷn ar hyn o bryd na fyddant efallai'n gallu gofalu yn y dyfodol;
 - Nifer cynyddol o ofalwyr sydd angen gofal eu hunain wrth iddynt fynd yn hŷn;
 - Cyfeiriodd awdurdodau lleol at anghenion 'cynyddol gymhleth', gan awgrymu y gallai o bosibl fod angen adolygu'r pecynnau gofal a dderbynnir ar hyn o bryd yn y dyfodol. Cyfeiriodd ALLau hefyd at ddisgwyliadau uwch a mwy o bwyslais ar gynnal annibyniaeth, gan arwain unwaith eto at gostau uwch yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth glir i gefnogi unrhyw ragdybiaeth benodol am effaith gwariant cyfunol yr holl ffactorau hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol y

bydd cynnydd mewn gwariant yn y dyfodol ar ryw lefel. Ar gyfer ein hamcangyfrif canolog, defnyddiwyd cynnydd o 20% mewn gwariant (yn seiliedig ar y gostyngiad mewn gwariant dros y deng mlynedd diwethaf, fel y nodwyd uchod), a oedd yn berthnasol i bobl hŷn yn unig³. Rydym yn tybio bod y cynnydd hwn yn digwydd dros ddeng mlynedd, felly erbyn diwedd ein cyfnod modelu pum mlynedd dim ond hanner y swm hwn sy'n cael ei ychwanegu i'w wario. At ddibenion y broses fodelu, tybiwyd nad oedd unrhyw 'alw ychwanegol' o'r math hwn ar gyfer oedolion o oedran gweithio (gan nad oes tystiolaeth ategol benodol) a phlant (gan fod y gwasanaethau i blant yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau gyda gwahanol yrwyr, o ofal plant i wasanaethau gofal maeth i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac ati).

Cynyddu costau comisiynu ar gyfer gofal preswyl (oedolion yn unig)

Mae'r dybiaeth hon yn adlewyrchu pwysau ar y ffioedd y mae awdurdodau lleol yn eu talu i gartrefi gofal, sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn rhy isel ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor darparwyr cartrefi gofal. Yng Nghymru, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fod 24% o breswylwyr cartrefi gofal yn ariannu eu hunain, a'u bod yn talu 36% yn fwy ar gyfartaledd na'u preswylwyr cyfatebol y mae'r ALI yn eu hariannu am lefelau cymharol debyg o ddarpariaeth gwasanaethau (sy'n cyfateb i tua £200)⁴. Mae'r data hwn yn awgrymu bod cartrefi gofal yn cymryd rhan mewn traws-gymorthdaliadau er mwyn parhau yn hyfyw yn ariannol.

Mae'r amcangyfrif canolog rydym yn ei ddefnyddio yn y model (8.64%)⁵ wedi'i lunio gan dybio bod y ddau fath o gleient yn y dyfodol yn talu'r un gyfradd (gan eu bod yn cael gwasanaeth tebyg), sy'n golygu bod cyfraddau hunangyllidwyr a chleientiaid a gefnogir gan ALLau yn cydgyfeirio dros amser i lefel sy'n cynnal refeniw heb ei newid i ddarparwyr gofal (felly mae incwm ar gyfer cartrefi gofal yn aros yr un fath, ond mae pob cleient yn talu'r un gyfradd).

Yn yr amcangyfrif canolog, tybiwyd y bydd y newid hwn yn digwydd yn llawn dros bum mlynedd. Dylid nodi nad yw'r amcangyfrif canolog hwn yn adlewyrchu pwysau cost pellach y gallai darparwyr gofal eu hwynebu.

³ Mae'r amcangyfrif hefyd yn cyd-fynd ag amcangyfrif blaenorol ar gyfer Cymru, gweler Holtham (2018), "Talu am Ofal Cymdeithasol".

⁴ "Astudiaeth o'r farchnad cartrefi gofal". Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2017).

⁵ Mae'r gostyngiad cyfatebol o ran cyfradd yr unigolion sy'n ariannu eu hunain tua 25.2%

Cynyddu ffioedd awdurdodau lleol am ofal dibreswyl (oedolion yn unig)

Cyfrifodd Cymdeithas Gofal Cartref y DU (2018)⁶, yn ddiweddar fod y gyfradd gyfartalog ar gyfer awr o ofal cartref y mae awdurdodau lleol Cymru yn talu amdano yn hafal i £16.78. Fodd bynnag, mae'r gymdeithas yn argymhell cyfradd isaf o £18.01 o leiaf i gydymffurfio â'r Rheoliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol (gan gynnwys costau teithio gweithwyr gofal) ac i dalu costau rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd gynaliadwy. Yr amcangyfrif cyfatebol ar gyfer 2019 yw £18.93.

Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, nifer yr oriau o ofal cartref a ddarperir a maint y gwasanaethau, rydym yn cyfrifo y byddai dilyn y gyfradd a argymhellir uchod yn arwain at gynydd o 5.94% mewn costau fel canran o gyfanswm gwariant net 2017-2018. Fe wnaethom ddefnyddio'r ffigur hwn fel yr amcangyfrif canolog yn ein model a defnyddio'r cynnydd canrannol hwn ar gyfer gwasanaethau gofal cartref ond hefyd ar gyfer gwasanaethau gofal dydd (gan dybio bod gwahaniaeth tebyg yn berthnasol). Tybir bod y newid yn digwydd dros bum mlynedd yn yr amcangyfrif canolog. Rydym hefyd wedi defnyddio amcangyfrifon gan UKHCA sy'n tybio y bydd cost gofal cartref yn codi yng nghyfnod yr amcanestyniad (hyd at 2022/23) ar yr un gyfradd a welwyd rhwng 2016 a 2019 ar gyfer cyfradd isaf UKHCA (3.8%), gan roi rhagor o bwysau ar gostau⁷. Mae hyn yn arwain at wariant ychwanegol o 7.64% (o'i gymharu â chost sylfaenol) ac fe'i hymgorfforwyd yn ein hamcangyfrif 'cost uchel'.

Mae data Cymdeithas Gofal Cartref y DU yn ymwneud ag unigolion 65 oed a throsodd yn unig, er bod yr awduron yn nodi bod cyfraddau ffioedd uwch yn aml ar wasanaethau i oedolion 18-64 oed. Fodd bynnag, oherwydd absenoldeb ymchwil benodol ar gyfer oedolion o oedran gweithio, rydym wedi rhagdybio effaith debyg ar gyfer pob oedolyn.

Arbedion posibl oherwydd gwasanaethau gofal ataliol ac integreiddiol (oedolion yn unig)

Ymddengys bod y dystiolaeth sydd ar gael am wasanaethau ataliol yn dangos potensial i leihau costau gofal cymdeithasol, er bod graddau'r effeithiau hyn yn ymddangos yn gyfyngedig ac wedi'u cyfyngu'n bennaf i achosion penodol. Mae rhaglenni diddorol yn cynnwys atal peryglon cwmpo, gosod addasiadau i'r cartref⁸, cyfeirio a llywio

⁶ Adroddiad Cymdeithas Gofal Cartref y DU ar ofal cartref, "The Homecare Deficit 2018", Cymdeithas Gofal Cartref y DU (2018).

⁷ Y rhagolwg chwyddiant ar gyfer y cyfnod yw 2.1%, sy'n golygu y bydd angen i wariant hefyd gwmpasu 1.7% yn ychwanegol.

⁸ Am dystiolaeth Gymreig ar wasanaethau ataliol, gweler Tudor et al. (2018), "Living well for longer: The economic argument for investing in the health and wellbeing of older people in Wales". Ar gyfer astudiaeth ar raglenni atal codymau yn seiliedig ar ymarfer corff, gweler Carande-Kulis et al. (2015), "A Cost-Benefit Analysis of Three Older Adult Fall Prevention Interventions". Am adolygiad systematig o'r RCTs ac arbrofion eraill ar effeithiolrwydd

gwasanaethau⁹. Mewn ymateb i'n harolwg byr, credai rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nid pob un, fod modelau gweithio newydd, gan gynnwys symud oddi wrth dulliau traddodiadol o ymdrin â dull mwy ataliol, cyfannol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal â dulliau comisiynu gwell, yn gallu arwain at arbedion cost.

Felly, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y gall gwasanaethau ataliol leihau costau gweithredu, mewn rhai amgylchiadau o leiaf. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn gysylltiedig â rhaglenni penodol mewn amrywiaeth o wahanol wledydd (gan gynnwys Cymru), ac nid yw'n ddigon i gefnogi unrhyw amcangyfrif penodol o ostyngiad mewn costau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r gyfradd a ddefnyddir yn y dybiaeth ganolog yn y model yn cyfateb i ostyngiad mewn costau, o'i gymharu â'r llinell sylfaen, o 1% y flwyddyn (5% dros 5 mlynedd) yn sgil gweithredu gwasanaethau gofal ataliol. Rydym wedi cynnal rhywfaint o brosesau dadansoddi sensitifrwydd ac effaith gosod y paramedr i sero (h.y. gan dybio nad oes unrhyw effaith ar wasanaethau ataliol ond gan adael popeth arall heb ei newid) wedi arwain at wariant ychwanegol o £70M erbyn 2022/23 (neu 3.2% ychwanegol ar gyfanswm y gwariant net, gweler Tabl 5). Yn yr amcangyfrif 'cost uchel' mae effaith gwasanaethau gofal ataliol bob amser yn cael ei gosod ar sero.

Caiff y ffigur hwn ei gymhwyso i gostau net y ddarpariaeth, yn ychwanegol at unrhyw gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hyn.

Tabl 5 Dadansoddiad sensitifrwydd – effaith gwasanaethau gofal ataliol neu fabwysiadu technolegau newydd ar gostau

.Amcangyfrif	Gwirion- eddol	Amcan- estyniad	Amcan- estyniad	Amcan- estyniad	Amcan- estyniad	Amcan- estyniad
	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Amcangyfrif canolog	£1,812M	£1,879M	£1,941M	£2,008M	£2,081M	£2,165M
Amcangyfrif canolog gydag effaith gwasanaethau ataliol neu dechnolegau newydd a bennwyd i 0 (dim ond oedolion 18+ oed)	£1,812M	£1,891M	£1,967M	£2,047M	£2,135M	£2,235M
Gwahaniaeth mewn £ miliwn	-	£12M	£26M	£39M	£54M	£70M
Gwahaniaeth mewn %	-	0.64%	1.34%	1.94%	2.59%	3.23%

Nodyn: Dadansoddiad sensitifrwydd ar amcangyfrif canolog, drwy osod yr effaith ar wasanaethau ataliol neu dechnolegau newydd i sero (mae'r ddau yn cael yr un effaith flynyddol yn yr amcangyfrif canolog) ac yn gadael popeth arall heb ei newid.

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru a data'r SYG.

addasiadau i'r cartref, gweler Powell et al. (2017), "The role of home adaptations in improving later life".

⁹ I gael tystiolaeth ar effeithiolrwydd cyfeirio/llywio gwasanaethau, gweler McDaid et al. (2017), "Making the economic case for investing in actions to prevent and/or tackle loneliness: a systematic review".

Arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â mabwysiadu technolegau newydd (oedolion yn unig)

Yn gyffredinol, mae technolegau newydd yn effeithio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion drwy eu helpu gartref a chynyddu posibilïadau teleofal¹⁰. Ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd, mae technolegau newydd yn caniatáu i wahanol asiantaethau gydweithio'n fwy effeithiol a lleihau'r straen ar y system gofal cymdeithasol. Ar ben hynny, gallai roboteg ac AI arwain o bosibl at awtomeiddio nifer o dasgau gweinyddol ac felly rhyddhau llawer o amser i weithwyr gofal.

Er bod llenyddiaeth ar gael sy'n cwmpasu amrywiaeth o ymyriadau gwahanol (yng Nghymru ac mewn mannau eraill), dim ond un amcangyfrif rydym wedi dod o hyd iddo ar draws y system effaith cyflwyno technolegau newydd yn y sector gofal: cyfrifodd yr IPPR (2018)¹¹ y gallai mabwysiadu technolegau newydd arwain at £6 biliwn mewn arbedion effeithlonrwydd blyneddol ar gyfer sector gofal cymdeithasol y DU, sy'n cyfateb i 18.83% o gyfanswm costau gofal cymdeithasol 2017-2018 ar gyfer y DU. Mae'r ffigur yn cyfateb i'r arbedion mwyaf posibl ar ôl goresgyn y rhwystrau posibl i'w mabwysiadu, ond nid oes unrhyw arwydd o ba mor hir y gallai ei gymryd i gyrraedd y lefel hon o arbedion. At ddibenion y dadansoddiad hwn, credwn ei bod yn ddefnyddiol meddwl am y ffigur hwn fel rhan uchaf o'r arbedion mwyaf posibl y gellir eu gwireddu o ganlyniad i dechnolegau newydd.

Yn y model, gosodwyd ein rhagdybiaeth achos canolog ar ostyngiad o 10% mewn costau dros 10 mlynedd (o'i gymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen). Os yw'r paramedr wedi'i osod i sero (gan adael popeth arall heb ei newid), byddai hyn yn arwain at gostau uwch o £70M yn 2022/23 (gweler Tabl 5, mae gwasanaethau gofal ataliol a thechnolegau newydd yn cael yr un effaith ar gostau ar ôl 5 mlynedd yn yr amcangyfrif canolog).

Yn y 'sefyllfa cost uchel', fe wnaethom dybio nad oes arbedion ar gael o fuddsoddi mewn mesurau technoleg dros gyfnod ein rhagamcanion, ac yn y sefyllfa 'cost isel' tybiwyd bod arbedion o 15% ar gael dros ddeng mlynedd.¹²

¹⁰ I weld adolygiad cynhwysfawr o achosion defnydd technolegau newydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gweler Blackwood (2018), "The promise of healthtech", a "Transforming social care through the use of information and technology", Cymdeithas Llywodraeth Leol (2016).

¹¹ Lord Darzi (2018), "Better health and care for all", IPPR.

¹² Mae'r dybiaeth o 15% ar gyfer y sefyllfa cost isel yn seiliedig yn fras ar yr arbedion o 18.8% a amcangyfrifwyd o adroddiad IPPR (2018) a ddyfynnwyd yn gynharach yn yr adran hon. Mae wedi'i dalgrynnu ychydig yn is i adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch y cyfnod amser dichonadwy ar gyfer cyflawni'r gostyngiadau a amcangyfrifwyd yn adroddiad IPPR.

Pwysau/arbedion cost eraill ar ofal cymdeithasol i oedolion (oedolion yn unig)

Mae'r paramedr hwn yn caniatáu i'r defnyddiwr ystyried pwysau cost posibl a/neu arbedion effeithlonrwydd i oedolion nad ydynt yn cael eu rheoli gan baramedrau eraill. Mae enghreifftiau o bwysau ychwanegol ar gostau yn cynnwys cynnydd mewn pensiynau a chyflogau, cynyddu costau'r comisiwn ar gyfer meysydd eraill o gostau neu wahanol wasanaethau gofal (y tu hwnt i ofal preswyl a gofal dibreswyl), tra gall arbedion posibl gwmpasu effeithlonrwydd gweinyddol uwch. Mae gwerth y paramedr hwn wedi'i bennu i sero yn y model ar hyn o bryd, gan adlewyrchu rhagdybiaeth y bydd y pwysau cost eraill hyn yn codi yn unol â chwyddiant cyffredinol.

Pwysau/arbedion cost ar ofal cymdeithasol i blant (plant yn unig)

Dim ond i wasanaethau gofal oedolion yn y model y mae'r holl ffactorau blaenorol yn berthnasol. Mae'r gwahanol eitemau gwariant a gaiff eu cynnwys ym maes gofal cymdeithasol plant yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau, o 'Ganolfannau plant', i wasanaethau 'Cyfiawnder Ieuenctid' a gwasanaethau ar gyfer 'Plant sy'n derbyn gofal'. Gall hyd yn oed y categorïau hyn gynnwys amrywiaeth o wasanaethau: er enghraifft mae'r categori 'Plant sy'n Derbyn Gofal' yn cynnwys gwasanaethau 'Gofal maethu' a gwasanaethau 'Gofal Preswyl'.

Rydym yn cyflwyno tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y ffactorau a allai effeithio ar wariant ar wasanaethau plant yn y dyfodol yn adran A1.6. Mae amrywiaeth o ffactorau wedi bod yn gysylltiedig â gwahaniaethau mewn gwariant ar blant sy'n derbyn gofal ar draws awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys lefelau amddifadedd, polisïau ac arferion awdurdodau lleol, a chyfraddau cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau gan rieni a salwch meddwl rhieni. Mae'r ystod o wasanaethau, a'r amrywiaeth o ffactorau a allai ddylanwadu ar lefel yr angen am wasanaethau, yn ei gwneud yn anodd rhagweld yr effaith ar wariant yn y dyfodol ac nid oes tystiolaeth glir i gefnogi unrhyw ragdybiaeth benodol am yr effaith gyfunol ar wariant yn y dyfodol.

O ganlyniad, dim ond un paramedr yr ydym wedi'i gynnwys sy'n adlewyrchu cynnydd/gostyngiad posibl yng nghyfanswm y costau ar gyfer gwasanaethau plant. Caiff yr amcangyfrif canolog ei bennu ar gyfer y paramedr hwn ar 2% y flwyddyn (yn ychwanegol at chwyddiant a thueddiadau demograffig) yn seiliedig ar y cyfraddau twf real a welwyd ar gyfer gwariant ar wasanaethau plant rhwng 2010-2011 a 2017-2018 (2.33% y flwyddyn).

3.3 Sefyllfaoedd ychwanegol

Yn ogystal â'r sefyllfa 'cost ganolog' rydym hefyd wedi llunio amcanestyniadau ar gyfer dwy sefyllfa arall: sefyllfa 'cost uchel', gan dybio rhagor o bwysau ar gostau a sefyllfa 'cost isel', gan dybio rhagor o arbedion effeithlonrwydd a llai o bwysau ar gostau. Bydd sefyllfaoedd cost uchel/isel yn tybio y bydd costau'n tyfu ar gyfraddau uwch/is o'i gymharu â'r

amcangyfrif o gostau canolog ac yn darparu dadansoddiad sensitifrwydd. Mae defnyddwyr y model yn rhydd i addasu'r tybiaethau a ddefnyddir.¹³

Cyflwynir y rhestr lawn o baramedrau a nifer y blynyddoedd sydd eu hangen i weithredu'n llawn yn Tabl 7 ar gyfer pob sefyllfa, tra mae Tabl 6 yn nodi manylion y cyfraddau twf a awgrymir yn ôl y sefyllfa llinell sylfaen y tu hwnt i'r hyn y cymhwysir y tybiaethau modelu yn Tabl 7.

Tabl 6 Cyfraddau twf mewn gwariant gofal cymdeithasol rhwng 2018/19 a 2022/23 wedi'u hawgrymu gan y sefyllfa llinell sylfaen

Grŵp cleientiaid	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Dan 18 (Plant a Theuluoedd)	2.5%	2.3%	2.5%	2.7%	2.7%
18-64 (Oedolion o Oedran Gweithio)	2.4%	1.9%	1.8%	2.0%	1.9%
65+ (Pobl hŷn)	4.2%	3.9%	3.9%	4.2%	5.2%
Cyfanswm	3.0%	2.7%	2.7%	2.9%	3.3%

Nodyn: caiff y cyfraddau twf hyn eu llunio yn ôl y sefyllfa llinell sylfaen sy'n ystyried newidiadau demograffig a chwyddiant.

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

¹³ Sylwer, yn y sefyllfaoedd cost uchel ac isel, nad yw pob ffactor o reidrwydd yn cael ei addasu yng nghyswllt y sefyllfa cost ganolog. Dyma'r sefyllfa gyffredinol sy'n gost uchel neu'n gost isel, yn hytrach na phob un o'r ffactorau unigol.

Tabl 7 Crynodeb o'r tybiaethau modelu a ddefnyddiwyd – Sefyllfaoedd canolog, cost uchel a chost isel

Ffactor	Effaith ar gostau	Amcangyfrif cost canolog	Amcangyfrif cost uchel	Amcangyfrif cost isel
Galw ychwanegol (pobl hŷn yn unig)	+	2% (blynyddol) (20% mewn 10 mlynedd)	2% (blynyddol) (20% mewn 10 mlynedd)	1% (blynyddol) (10% mewn 10 mlynedd)
Cynyddu costau comisiynu ar gyfer gofal preswyl	+	1.7% (blynyddol) (8.6% mewn 5 mlynedd)	1.7% (blynyddol) (8.6% mewn 5 mlynedd)	0.9% (blynyddol) (8.6% mewn 10 mlynedd)
Cynyddu ffioedd awdurdodau lleol am ofal dibreswyl	+	1.2% (blynyddol) (5.9% mewn 5 mlynedd)	1.5% (blynyddol) (7.6% mewn 5 mlynedd)	0.6% (blynyddol) (5.9% mewn 10 mlynedd)
Gwasanaethau gofal ataliol ac integreiddiol	-	1% (blynyddol) (5% mewn 5 mlynedd)	0% (blynyddol)	1% (blynyddol) (5% mewn 5 mlynedd)
Technolegau newydd	-	1% (blynyddol) (10% mewn 10 mlynedd)	0% (blynyddol)	1.5% (blynyddol) (15% mewn 10 mlynedd)
Pwysau/arbedion cost eraill ar ofal cymdeithasol i oedolion	+/-	0% (blynyddol)	1% (blynyddol)	0% (blynyddol)
Pwysau/arbedion cost eraill ar ofal cymdeithasol i blant	+/-	2% (blynyddol)	3% (blynyddol)	1% (blynyddol)

Nodyn: Caiff newidiadau ychwanegol i ffactorau eu hadlewyrchu yn y sefyllfa llinell sylfaen, h.y. newidiadau demograffig a chwyddiant. Felly mae newid o 0% yn y tabl uchod yn golygu bod costau'n cynyddu ar yr un gyfradd â chwyddiant. Mae'r newid blynyddol a adroddwyd yn dangos yr effaith ychwanegol ar gostau ym mhob blwyddyn, e.e. mae 1% bob blwyddyn dros 5 mlynedd (cyfanswm o 5%) yn golygu y bydd y ffactor yn cynyddu cost sylfaenol 1% ym mlwyddyn 1, 2% ym mlwyddyn 2, ac ati. Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 0.1 agosaf

Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales.

4 Amcanestyniadau cost

4.1 Amcanestyniadau gwariant cyfredol

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno canlyniadau'r amcanestyniadau yn seiliedig ar y sefyllfa llinell sylfaen, y sefyllfaoedd 'cost ganolog', 'cost uchel' a 'chost isel'. Mae Ffigur 5 yn dangos cyfanswm y gwariant rhagamcanol ar gyfer y cyfnod 2017/18 (y llynedd, lle mae data gwirioneddol ar gael ar ei gyfer) hyd at 2022/23 (y flwyddyn berthnasol ddiwethaf ar gyfer yr ymarfer modelu¹⁴) o dan y gwahanol sefyllfaoedd, tra mae Tabl 8 yn dangos y gwahanol amcanestyniadau, y gwahaniaeth ariannol ar gyfer pob sefyllfa o'i gymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen, mae'r ganran gronol yn cynyddu rhwng 2017/18 a 2022/23 a'r cyfraddau twf blynyddol cyfartalog ar gyfer y cyfnod 2020/21-2022/23 o dan y gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r holl werthoedd yn werthoedd nominal (neu arian parod).

O dan y sefyllfa 'cost ganolog', rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant net ar wasanaethau gofal cymdeithasol £71M yn uwch yn 2022/23 o'i gymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen; y gwahaniaethau cyfatebol ar gyfer y sefyllfaoedd 'cost uchel' a 'chost isel' yw £327M a -£70M (h.y. gwariant net is o'i gymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen) yn y drefn honno.

Rhagwelir y bydd y twf canrannol cronol mewn gwariant net rhwng 2017/18 a 2022/23 tua 16% yn y sefyllfa llinell sylfaen, 19% yn y sefyllfa 'cost ganolog', bron i 33% yn y sefyllfa 'cost uchel' ac ychydig yn llai na 12% yn y sefyllfa 'cost isel'. Yn olaf, rhagwelir y bydd cyfraddau twf blynyddol cyfartalog ar gyfer y cyfnod 2020/21-2022/23 yn y gwahanol sefyllfaoedd tua 3%, 3.6%, 6% a 2.2% (yn y sefyllfaoedd llinell sylfaen, 'canolog', 'uchel' ac 'isel' yn y drefn honno).

Mae'r holl amcanestyniadau hyn yn dibynnu ar y tybiaethau a ddefnyddir a chânt eu darparu i ddangos pwysau pellach posibl ar gostau (neu arbedion effeithlonrwydd ychwanegol) o'i gymharu â sefyllfa lle mae costau'n cael eu gyrru gan ddemograffeg a thueddiadau chwyddiant yn unig (fel yn y sefyllfa llinell sylfaen).


¹⁴ Mae'r modelu a'r amcanestyniadau yn seiliedig ar ddata oedd ar gael ar 31 Awst 2019.

Tabl 8 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – sefyllfaoedd gwahanol

	Gwirioneddol	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Amcan-estyniad	Gwahaniaeth gyda llinell sylfaen yn 2022/23	Newid 2017/18 i 2022/23	Cyfradd twf flynyddol gyfartalog 17/18 i 22/23
	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23			
	£M	£M	£M	£M	£M	£M	£M	%	%
Sefyllfa llinell sylfaen	£1,812M	£1,867M	£1,917M	£1,970M	£2,028M	£2,094M	-	15.6%	2.9%
Sefyllfa 1	£1,812M	£1,871M	£1,932M	£1,995M	£2,061M	£2,129M	£35M	17.5%	3.3%
Sefyllfa 'cost ganolog'	£1,812M	£1,879M	£1,941M	£2,008M	£2,081M	£2,165M	£71M	19.5%	3.6%
Sefyllfa 'cost uchel'	£1,812M	£1,923M	£2,034M	£2,151M	£2,278M	£2,421M	£327M	33.6%	6.0%
Sefyllfa 'cost isel'	£1,812M	£1,854M	£1,891M	£1,930M	£1,973M	£2,024M	-£70M	11.7%	2.2%

Nodyn: Mae'r celloedd â chysgod llwyd yn cynrychioli amcanestyniadau; y celloedd heb gysgod sy'n cynrychioli ffigurau gwirioneddol. Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm). Mae'r sefyllfaoedd Canolog/Cost uchel/Cost isel yn adlewyrchu'r sefyllfa llinell sylfaen a'r paramedrau a gyflwynir yn Nhabl 7. Mae Sefyllfa 1 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Pob gwerth enwol (arian parod).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

Ffigur 5 Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net mewn gwahanol sefyllfaoedd (£ miliwn)

Nodyn: Mae'r cysgod llwyd tywyll yn dangos tair blynedd ariannol amcanestyniadau'r ymarfer modelu (2020/21 i 2022/23), tra mae'r cysgod llwyd ysgafn yn cynrychioli blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 (y bu'n rhaid ei rhagweld gan nad oes data gwirioneddol ar gael eto). Mae'r Sefyllfa Sylfaenol yn defnyddio'r nifer bresennol o dderbynwyr gofal, amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon CPI i brosiect Gwariant Cyfredol Net (Gwariant gros minws Cyfanswm Incwm). Mae'r sefyllfaoedd Canolog/Cost uchel/Cost isel yn adlewyrchu'r sefyllfa llinell sylfaen a'r paramedrau a gyflwynir yn Nhabl 7. Mae Sefyllfa 1 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Pob gwerth enwol (arian parod).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru, data'r SYG a BoE.

4.2 Amcanestyniadau gwariant cyfalaf


Yn olaf, fe wnaethom edrych ar ddata diweddar ar wariant cyfalaf a derbyniadau mewn gwasanaethau cymdeithasol. Dylid nodi nad yw'r diffiniad o wasanaethau cymdeithasol a gaiff ei gwmpasu gan wariant alldro cyfalaf a derbyniadau yn cyfateb i'r diffiniad a ddefnyddir yn y gyfres wariant gyfredol (cyfres Alldro Refeniw).

Mae'r data yn cwmpasu gwariant cyfalaf gwirioneddol a derbyniadau ar gyfer 2018/19, rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 a gyhoeddwyd ar StatsCymru, ac amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 2020/21-2022/23 a luniwyd dan y dybiaeth syml y bydd gwariant a derbyniadau yn y tair blynedd hynny yn hafal i'r cyfartaledd rhwng 2017/18-

2019/20. Ac ystyried pa mor anwadal o uchel yw'r amcangyfrifon ar gyfer y gyfres gwariant cyfalaf a derbyn yn draddodiadol (a ddangosir yn Ffigur 6 ar gyfer y cyfnod 2008/09-2018/19) nid ydym wedi ceisio rhagweld esblygiad tueddiadau yn y dyfodol, rydym wedi cymryd ymagwedd geidwadol yn lle hynny.

Gan ddefnyddio'r dull hwn, y ffigur rhagamcanol ar gyfer gwariant cyfalaf yn y cyfnod 2021/22-2022/23 yw £21M y flwyddyn, tra mae'r ffigur rhagamcanol ar gyfer derbyniadau cyfalaf tua £2.8M y flwyddyn (gweler Ffigur 6).

Ffigur 6 Gwariant a Derbyniadau Cyfalaf Rhagamcanol (£ miliwn)



Nodyn: £ miliwn. Gwerthoedd gwirioneddol hyd at 2018/19 o

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Capital/Outturn>.

Cymerir rhagolygon ar gyfer 2019/20 o StatsCymru

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Capital/Forecast>.

Cyfrifwyd amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23 fel cyfartaledd y gwerthoedd ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Nid yw'r diffiniad o wasanaethau cymdeithasol a gaiff ei gwmpasu gan wariant alldro Cyfalaf a derbyniadau yn cyfateb i'r diffiniad a ddefnyddir yn y gyfres Alldro Refeniw (gwariant cyfredol).

Ffynhonnell: Mae cyfrifiadau LE Wales yn seiliedig ar ddata StatsCymru.

Mynegai Tablau, Ffigurau a Blychau

Tablau

Tabl 1	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – sefyllfaoedd gwahanol	iii
Tabl 2	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol: 2020/21 i 2022/23 - Sefyllfa llinell sylfaen	6
Tabl 3	Cyfraddau twf mewn gwariant net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2018/19 a 2022/23 yn y sefyllfa llinell sylfaen	7
Tabl 4	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – Sefyllfa 1	11
Tabl 5	Dadansoddiad sensitifrwydd – effaith gwasanaethau gofal ataliol neu fabwysiadu technolegau newydd ar gostau	17
Tabl 6	Cyfraddau twf mewn gwariant gofal cymdeithasol rhwng 2018/19 a 2022/23 wedi'u hawgrymu gan y sefyllfa llinell sylfaen	20
Tabl 7	Crynodeb o'r tybiaethau modelu a ddefnyddiwyd – Sefyllfaoedd canolog, cost uchel a chost isel	21
Tabl 8	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net ar wasanaethau gofal cymdeithasol rhwng 2020/21 a 2022/23 – sefyllfaoedd gwahanol	23
Tabl 9	Gwahaniaethau mewn ffioedd rhwng preswylwyr a ariennir gan ALL a phreswylwyr sy'n ariannu eu hunain	40
Tabl 10	Adnoddau amser ac arian y mae posibl eu rhyddhau yn sgil awtomeiddio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol	56

Ffigurau

Ffigur 1	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net mewn gwahanol sefyllfaoedd (£ miliwn)	iv
Ffigur 2	Rhagamcan o Gyfanswm y Gwariant Cyfredol Net (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen	7
Ffigur 3	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net fesul grŵp cleientiaid (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen	8
Ffigur 4	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net (£ miliwn) – Sefyllfa Llinell Sylfaen a Sefyllfa 1	10

Ffigur 5	Rhagamcan o Wariant Cyfredol Net mewn gwahanol sefyllfaoedd (£ miliwn)	24
Ffigur 6	Gwariant a Derbyniadau Cyfalaf Rhagamcanol (£ miliwn)	25
Ffigur 7	Pwysau cost cronol a wynebwr gan awdurdodau lleol Cymru mewn £ miliwn	31
Ffigur 8	Pwysau cost cronol i'r gwasanaethau cymdeithasol a wynebwr gan awdurdodau lleol Cymru mewn £ miliwn	32
Ffigur 9	Esblygiad y gwariant cyfredol net real fesul unigolyn 65 oed a hŷn yng Nghymru	34
Ffigur 10	Nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn	35
Ffigur 11	Tueddiadau yn y boblogaeth o dan 18 oed o nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru	58
Ffigur 12	Gwariant cyfredol net real fesul plentyn sy'n derbyn gofal a fesul plentyn (o dan 18 oed)	58
Ffigur 13	Esblygiad gwariant ym maes gofal cymdeithasol i blant (prisiau cyson 2017-2018)	61

Atodiad 1 Methodoleg a ddefnyddiwyd yn y Sefyllfa Llinell Sylfaen

Mae'r mewnbynnau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn y sefyllfa llinell sylfaen wedi'u rhestru isod:

4.3 Diffiniadau a thybiaethau

- Mae'r holl amcanestyniadau'n cael eu cynnal ar gyfer gwariant cyfredol net, a gaiff ei ddiffinio fel Gwariant Gros minws Cyfanswm yr Incwm ac a nodir yn y gyfres Alldro Refeniw ar StatsCymru;
- Mae'r amcanestyniadau wedi'u modelu ar wahân ar gyfer gwariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer y grwpiau o blant (hyd at 18 oed), oedolion o oedran gweithio (18-64) a phobl hŷn (65+);
- Ar gyfer gwasanaethau plant, nid oes modd cysylltu'r gyfres ar wariant a gwasanaethau yn uniongyrchol ar gyfer pob eitem – gwnaethom gysylltu gwariant a nifer y rhai sy'n derbyn gofal ar gyfer 'Plant sy'n derbyn gofal' ac ar gyfer y rhaglen 'Dechrau'n Deg' a rhagdybio'r un gyfradd twf ar gyfer yr eitemau data eraill. O dan y sefyllfa llinell sylfaen presennol, mae'r holl newidiadau'n cael eu llywio gan tueddiadau poblogaeth a chwyddiant;
- Gwnaethpwyd yr amcanestyniadau ar lefel Cymru gan ddefnyddio rhifau cyfanredol;
- Ni ddychwelodd un awdurdod lleol (Bro Morgannwg) unrhyw ddata ar nifer na derbynwyr gwasanaethau gofal oedolion ar gyfer 2017/18, felly penderfynwyd defnyddio data 2016/17 yn lle hynny. Dychwelodd dau awdurdod lleol arall (Caerffili a Chasnewydd) ddata anghyflawn ar gyfer gwasanaethau gofal oedolion a ddarparwyd yn 2017/18¹⁵ a gwnaethom grosio'r ffigur i fyny i amcangyfrif cyfanswm blynyddol cyfatebol (yn seiliedig ar nifer y diwrnodau a gwmpesir/sy'n weddill tan 31 Mawrth);
- Gwnaethpwyd yr amcanestyniadau ar gyfer gwariant cyfredol net, gan dybio bod cyfran y gwariant gros sy'n cael ei gwmpasu gan gyfanswm yr incwm yn parhau'n gyson dros y tair blynedd ariannol nesaf (h.y. tybir bod gwariant gros a chyfanswm yr incwm yn dilyn yr un tueddiadau);
- Rydym wedi tybio bod cyfran y rheini sy'n derbyn gofal ac yn cael gwasanaethau yn aros yn gyson fel canran o'r boblogaeth ym mhob band oedran yn y tair blynedd ariannol nesaf;
- Cymerwyd y tueddiadau demograffig ar sail amcanestyniadau poblogaeth y SYG yn 2016;
- Cymerwyd y rhagolygon chwyddiant o Adroddiad Chwyddiant diweddaraf Banc Lloegr (Mai 2019);

¹⁵ Roedd y data a ddychwelwyd yn cwmpasu hyd at 13 Chwefror 2018 ar gyfer Caerffili a 6 Mawrth 2018 ar gyfer Casnewydd

- Mynegir yr holl ffigurau mewn termau ariannol cyfredol (nominal) ac maent yn seiliedig ar ddata oedd ar gael ar 31 Awst 2019;
- Ni chafodd y categori 'strategaeth gwasanaeth – gwasanaethau i oedolion' ei gynnwys yn y ffigur gwariant cyfredol net;

4.4 Camau

- Ar gyfer pob grŵp cleientiaid, cyfrifwyd cymhareb y gwariant cyfredol net wedi'i rannu â nifer y gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar StatsCymru (2017/18) gan lunio gwariant cyfredol net fesul gwasanaeth a ddarperir. Ar gyfer y grŵp dan 18 oed, dim ond nifer y plant a gefnogwyd ar 31 Mawrth sydd ar gael ac fe wnaethom ddefnyddio'r gyfres honno;
- Yna, mynegwyd nifer y derbynwyr fel cyfran o'r boblogaeth gyffredinol ym mhob band oedran. Er mwyn gwella cywirdeb yr amcangyfrifon, rhannwyd y grŵp o bobl hŷn i dri is-grŵp (65-74, 75-84 ac 85+);
- Cyfunwyd y cymarebau hyn â thueddiadau demograffig i lunio amcangyfrif o faint o wasanaethau a ddarparwyd hyd at 2022/23, gan dybio bod nifer y gwasanaeth yn aros yn gyson fel cyfran o'r boblogaeth gyffredinol ym mhob band oedran a bod nifer a chymysgedd y gwasanaethau a ddarperir fesul y sawl sy'n derbyn gofal hefyd yn aros yn gyson dros amser;
- Cafodd y ffigurau ariannol eu chwyddo gan ddefnyddio rhagolygon CPI i lunio'r amcanestyniadau yn y sefyllfa llinell sylfaen.

Atodia 2 Pwysau cost ychwanegol: tystiolaeth ategol

Mae ein rhagamcanion sylfaenol yn ystyried effeithiau posibl newidiadau demograffig a chwyddiant cyffredinol ar gostau gofal cymdeithasol yng Nghymru dros y cyfnod hyd at 2022-23.

Yn yr Atodiad hwn, caiff tystiolaeth sy'n ymwneud â phwysau ychwanegol posibl (cadarnhaol a negyddol) ar gostau gofal cymdeithasol yng Nghymru ei hadolygu.

- Yn gyntaf, rydym yn amlinellu amcangyfrifon blaenorol ar bwysau cyffredinol o ran costau gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r newidiadau polisi diweddar sy'n digwydd yng Nghymru.
- Yn ail, rydym yn ystyried a oes galw heb ei ddiwallu eisoes am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru ac, os felly, pa mor arwyddocaol y gallai hyn fod.
- Yn drydydd, rydym yn adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â phwysau cost uned, megis costau'r gweithlu.
- Yn bedwerydd, rydym yn adolygu tystiolaeth ynghylch a allai mesurau ataliol, a chynyddu'r defnydd o dechnoleg, gyfrannu at leihau pwysau costau.


A1.1 Pwysau ariannol gofal cymdeithasol yng Nghymru: amcangyfrifon blaenorol

Ym mis Rhagfyr 2018, amcangyfrifodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru¹⁶ y bydd awdurdodau lleol Cymru, o'i gymharu â 2017-2018, yn wynebu £762 miliwn ychwanegol o ran pwysau gwariant cronol erbyn 2020-2021. O'r rhain, mae £378 miliwn yn deillio o gostau gweithlu ychwanegol sy'n deillio o gynnydd mewn pensiynau a chyflogau, tra mae £239 miliwn a £145 miliwn yn deillio o bwysau demograffig a chwyddiant yn y drefn honno. Darperir dadansoddiad gweledol yn Ffigur 7.

¹⁶ Dogfen ar gael yma:

<http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1432>

Ffigur 7 Pwysau cost cronnol a wynebwr gan awdurdodau lleol Cymru mewn £ miliwn




Nodyn: mae'r echelin 'x' yn dangos blynyddoedd ac mae'r echelin 'y' yn dynodi £ mewn miliwn.

Ffynhonnell: CLILC ac ADSS (2018), Tystiolaeth i'r pwyllgor cyllid ar yr ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae CLILC (2018)¹⁷ yn nodi, erbyn 2021-2022, bydd 45% o'r pwysau cost a wynebwr gan lywodraethau lleol, neu £344 miliwn, yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae ychydig mwy na hanner y rhain yn deillio o dueddiadau demograffig, tra bod cynnydd mewn cyflogau (e.e. y cyflog byw cenedlaethol) a phensiynau yn cyfrif am y gweddill; gweler Ffigur 8.

¹⁷ Ibid.

Ffigur 8 Pwysau cost cronol i'r gwasanaethau cymdeithasol a wynebier gan awdurdodau lleol Cymru mewn £ miliwn



Nodyn: mae'r echelin 'x' yn dangos blynyddoedd ac mae'r echelin 'y' yn dynodi £ mewn miliwn.

Ffynhonnell: CLILC ac ADSS (2018), Tystiolaeth i'r pwyllgor cyllid ar yr ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

Er nad oes unrhyw astudiaeth Gymraeg sy'n cyfateb i'r English Longitudinal Study of Ageing (ELSA), mater a nodwyd gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), mae'r Sefydliad Iechyd (2016) yn defnyddio'r ELSA i amcangyfrif pwysau galw ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol, maent yn tybio bod y twf cymharol mewn gwariant gofynnol y pen yn y grwpiau oedran 16-64 a 65+ yng Nghymru yn debyg i'w cyfoedion yn Lloegr ac yn defnyddio'r un model â Hancock et al. (2013). Maent yn amcangyfrif y bydd pwysau costau gofal cymdeithasol yn cynyddu 4.1% y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-2031 o ganlyniad i dueddiadau demograffig, cyflyrau cronig a chostau cynyddol, ac felly'n cyrraedd £2.3 biliwn yn 2030-2031.

A1.1.1 Newidiadau diweddar i'r polisi codi tâl yng Nghymru

Mae dau newid mawr wedi digwydd yn ddiweddar yng Nghymru o ran cyllid a thaliadau gofal cymdeithasol:

- Cynyddodd y terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl o £24,000 i £30,000 yn 2017 ac yna cynyddodd ymhellach i £40,000 (2018) a £50,000 (2019). Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £18.5m y flwyddyn i gefnogi'r broses o weithredu'r polisi hwn¹⁸;
- Cafodd uchafswm y tâl wythnosol am wasanaethau gofal dibreswyl, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2011 (ac a osodwyd ar £50) ei godi'n flynyddol o £10 rhwng 2016 a 2019 ac mae bellach yn £90 a bydd yn codi i £100 ym mis Ebrill 2020;

Mae effaith gyfunol y newidiadau polisi hyn ar wariant net yn aneglur. Hefyd, er bod gwariant gros yn debygol o godi oherwydd y cynnydd yn y terfyn cyfalaf, bydd cyfran y gwariant gros a gaiff ei gwmpasu gan incwm o daliadau yn dibynnu ar incwm personol. O edrych ar ddata hanesyddol a'r gymhareb gwariant net/gros, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng cyfran y gwariant gros a gaiff ei gwmpasu gan gleientiaid yn y cyfnod 15/16-17/18 (pan gynyddwyd y terfyn cyfalaf i £30,000) - mae'r gymhareb gwariant net/gros tua 74% yn gyson ar gyfer pobl hŷn a thua 84% yn gyffredinol.

A1.2 Galw ychwanegol

Yn yr adran hon rydym yn ystyried tystiolaeth ynghylch a yw'n debygol y bydd galw ychwanegol am wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y system bresennol. Os oes galw ychwanegol, yna bydd hyn yn cyfrannu at bwysau o ran costau gofal cymdeithasol cynyddol yn y dyfodol.

A1.2.1 Tystiolaeth o ran Cymru


Mae Ffigur 9 yn dangos, ar gyfer y grŵp o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru, bod gwariant gofal cymdeithasol cyfredol net y pen wedi gostwng tua 20% rhwng 2007-2008 a 2017-2018 mewn termau real (h.y. wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).

Wedi'i fynegi ym mhrisiau 2017-2018, roedd gwariant blynyddol real fesul oedolyn hŷn yn hafal i £1,132 yn 2007-2008 a £911 yn 2017-2018. Mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018)¹⁹ yn nodi pryderon gan Gofal Cymdeithasol Cymru nad yw rhai pobl hŷn efallai'n cael yr un faint o gymorth ag yr oeddent yn arfer ei gael ychydig flynyddoedd ynghynt oherwydd y gostyngiadau hyn.

¹⁸ <https://gov.wales/written-statement-raising-capital-limit-ps50000#targetText=Wales%20has%20the%20highest%20capital,at%20or%20below%20%C2%A350%2C000>.

¹⁹ Dogfen ar gael yma: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11773/cr-ld11773-w.pdf>

Ffigur 9 Esblygiad y gwariant cyfredol net real fesul unigolyn 65 oed a hŷn yng Nghymru



Nodyn: (i) amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn a (ii) gwariant alldro referiw gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid; ar gyfer data chwyddiant y gyfres berthnasol yw mynegai'r CPI.

Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales yn seiliedig ar ddata poblogaeth a gwariant gan StatsCymru a data chwyddiant gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Mae effeithiau'r gostyngiad a nodwyd mewn gwariant real y pen ar ofal oedolion hŷn i'w weld yn glir yn Ffigur 10. Er i nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn godi rhwng 2016-2017 a 2017-2018, mae'n dal gryn dipyn yn is nag yn 2010-2011 (o bron i fil gyda thua 22,400 o leoedd yn 2017-2018 o'i gymharu â 23,400 yn 2010-2011).²⁰

Ar ben hynny, digwyddodd y gostyngiad mewn lleoedd dros y cyfnod cyfan ar adeg pan gynyddodd nifer yr unigolion 65 oed a throsodd yn barhaus. Mae'n bosibl bod y gostyngiadau mewn gwariant ac yn nifer y lleoedd yn ganlyniad i fwy o effeithlonrwydd ac effeithiau mesurau ataliol, ond gwyddom fod pwysau gwario cynyddol hefyd dros y cyfnod hwn.

²⁰ Gweler Ffigur 10. Mae data ar gael gan Stats Cymru: 'Gwasanaethau a Lleoedd AGC yn ôl Math o Leoliad a Blwyddyn'.

Mae Holtham (2018)²¹ yn amcangyfrif y gallai bodloni "galw heb ei ddiwallu" ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynyddu gwariant gofal cymdeithasol y pen tua 20%, er bod yr awdur yn cyfaddef bod angen ymchwilio ymhellach i amcangyfrif yn union beth a olygir gyda "gormod o alw". Yn fwy penodol, ceir y ffigur hwn drwy nodi (i) bod gwariant real y pen wedi gostwng tua 20% rhwng 2007-2008 (lefelau cyn argyfwng) a 2017-2018 a (ii) gan dybio bod costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chyflogau uwch (e.e. CBC) yn cael ei ddigolledu gan arbedion effeithlonrwydd yn y ddarpariaeth gofal a bod anghenion y boblogaeth yn cael eu targedu'n well.

Ffigur 10 Nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn



Sylwer: nid yw lleoedd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion a lleoliadau eraill nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Ffynhonnell: StatsCymru: 'Gwasanaethau a Lleoedd AGC yn ôl Math o Leoliad a Blwyddyn'.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru²² yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth ar farn ymatebwyr am wasanaethau gofal yng Nghymru. Yn benodol, gofynnodd rhai rhifynnau i gyfranogwyr ateb

²¹ Holtham (2018) Talu am Ofal Cymdeithasol, Adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gweler: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-talu-am-ofal-cymdeithasol-adroddiad-annibynnol-gan-yr-athro-gerald-holtham>

²² Disgrifiwyd y canlyniadau y soniwyd amdanynt ar ôl hynny hefyd yn yr adroddiad interim ar Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015, 2016-2017 a 2017-2018.

a oeddent yn cytuno ai peidio (ar raddfa yn amrywio o "Anghytuno'n gryf" i "Cytuno'n gryf") gyda'r datganiad canlynol: "Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn fy ardal leol". Ar lefel Cymru, mae data'n awgrymu bod anffodlonrwydd â gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi cynyddu dros amser, o 15.2% yn 2014-2015 i 18.6% yn 2016-2017 a 21.6% yn 2018-2019. Ar y llaw arall, cynyddodd cyfran yr unigolion a nododd foddhad o 51% yn 2014-2015 i 57% yn 2016-2017 cyn dychwelyd i 51% yn 2017-2018.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-2019 hefyd yn dangos bod 11% o'r ymatebwyr wedi cael cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol, ond soniodd 4% fod angen cymorth arnynt gan wasanaethau gofal cymdeithasol ac na wnaethant ei dderbyn (mae'r ddau ffigur yn uwch ar gyfer pobl hŷn).

A1.2.2 Tystiolaeth ar gyfer y DU a Lloegr

I gael cyd-destun, darperir rhywfaint o ddata ar gyfer Lloegr yma, er bod meini prawf cymhwysedd yn Lloegr yn wahanol ac felly nid oes modd cymharu'r data'n uniongyrchol â'r data ar gyfer Cymru. Ledled Lloegr, mae AgeUK yn amcangyfrif bod anghenion bron i 1 o bob 7 o bobl hŷn²³ heb eu diwallu, neu 1,400,000 o unigolion²⁴. O'r rhain, mae angen cymorth ar dros 300,000 gyda thair tasg hanfodol neu fwy bob dydd. Nid yw 160,000 yn cael unrhyw gymorth anffurfiol na ffurfiol. Yn ôl y Gymdeithas Llywodraeth Leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2018)²⁵, byddai angen £2.4 biliwn ychwanegol y flwyddyn i fodloni gofynion yr olaf, ac £1.2 biliwn y flwyddyn i ateb y galw gan y rheini sy'n derbyn gofal a chanddynt anghenion heb eu diwallu. Mae ffigurau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn seiliedig ar amcangyfrifon AgeUK a dylid eu hystyried fel rhai dangosol²⁶, ond maent yn awgrymu y byddai bodloni'r galw heb ei ddiwallu yn gofyn am gynnydd o tua 23% mewn cyllid gofal cymdeithasol²⁷, canran sy'n agos at yr amcangyfrif ar gyfer Cymru a ddarparwyd

²³ Dogfen ar gael yma: <https://www.ageuk.org.uk/latest-news/articles/2018/july/1.4-million-older-people-arent-getting-the-care-and-support-they-need--a-staggering-increase-of-almost-20-in-just-two-years/>

²⁴ Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar yr English Longitudinal Study of Ageing nad oes astudiaeth gyfatebol ar gael yn Gymraeg.

²⁵ Dogfen ar gael yma: <https://futureofadultsocialcare.co.uk/wp-content/uploads/2018/07/The-lives-we-want-to-lead-LGA-Green-Paper-July-2018.pdf>

²⁶ Er mwyn cael y ffigurau hyn, maent yn defnyddio canlyniadau AgeUK ac yn tybio bod cefnogaeth i bobl ag anghenion heb eu diwallu yn adlewyrchu proffil cymorth presennol pobl hŷn o ran gofal cartref a phreswyl. Yna, caiff costau uned eu cymhwyso fel a ganlyn: 1 awr y dydd ar gyfer gofal cartref a'r gost sy'n gysylltiedig â blwyddyn mewn cartref gofal ar gyfer gofal preswyl.

²⁷ Yn seiliedig ar wariant cyfredol net o £15,330,129,000 ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr ar gyfer 2017-2018; gweler y ddogfen ganlynol am ragor o wybodaeth: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/787836/RS_2017-18_data_by_LA_-_revised.xlsx

gan Holtham (2018)²⁸. Mae AgeUK²⁹ hefyd yn amcangyfrif bod oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai oherwydd diffyg gofal cymdeithasol yn costio £500 y funud i'r GIG, neu tua £263 miliwn y flwyddyn.

A1.3 Pwysau cost uned

Yn ogystal â chwyddiant prisiau cyffredinol, gall nifer o ffactorau hefyd effeithio ar gostau uned y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Newidiadau yng nghostau'r gweithlu (e.e. cyflogau, pensiynau ac ati).
- Cynnydd mewn costau comisiynu – y ffioedd a delir i ddarparwyr gwasanaethau gofal dibreswyl, cartrefi gofal preswyl a nyrsio, canolfannau teulu ac ati. Gall costau comisiynu gael eu llywio gan gostau cyflog cynyddol i ddarparwyr yn ogystal â chynnydd mewn costau eraill.

A1.3.1 Newidiadau yng nghostau'r gweithlu

Tystiolaeth o ran Cymru

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r cyflog byw cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig (CBC, sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer y grŵp 25+ oed o 1 Ebrill 2016) wedi cynyddu ar gyfradd uwch na chwyddiant (CPI). Mae CBC yn ddangosydd da o newidiadau yn y costau sy'n gysylltiedig â staff gofal cymdeithasol gan fod llawer o weithwyr yn y sector gofal cymdeithasol fel arfer yn cael y CBC. Er enghraifft, mae astudiaeth ledled y DU gan LaingBuisson³⁰ yn nodi bod esblygiad cyflogau gofalwyr mewn cartrefi gofal er elw yn adlewyrchu'n agos y tueddiadau a welwyd ar gyfer CBC yn y DU.

Yng Nghymru, mae adroddiad gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol (2016)³¹ yn tynnu sylw at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y CBC. Yn benodol, maent yn nodi bod staffio yn cyfateb i tua

²⁸ Dogfen ar gael yma: <https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/publications/180628-paying-for-social-care-en.pdf>

²⁹ Gweler yma: <https://www.ageuk.org.uk/latest-news/articles/2018/july/1.4-million-older-people-arent-getting-the-care-and-support-they-need--a-staggering-increase-of-almost-20-in-just-two-years/>

³⁰ Dogfen ar gael yma: <https://www.laingbuissonevents.com/wp-content/uploads/2017/05/William-COP.pdf>

³¹ Mae'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol yn cynnwys Fforwm Gofal Cymru, Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig, Cymorth Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Anabled Dysgu Cymru ac Age Cymru. Mae'r ddogfen ar gael yma: [https://www.cymorthcymru.org.uk/files/2114/5250/3787/Report - The impact of the National Living Wage on the care sector in Wales.pdf](https://www.cymorthcymru.org.uk/files/2114/5250/3787/Report_-_The_impact_of_the_National_Living_Wage_on_the_care_sector_in_Wales.pdf)

dwyr ran o dair o'r holl gostau ym maes gofal cymdeithasol, ac y bydd yr angen i gynnal gwahaniaethau cyflog yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr adlewyrchu cyfraddau uwch CBC o ran gweithwyr gofal hefyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, oni bai bod awdurdodau lleol yn cael arian ychwanegol, bod cynyddu'r CBC yn debygol o arwain at nifer o ganlyniadau niweidiol i'r farchnad gofal cymdeithasol. Mae'r canlyniad cyntaf yn ymwneud â breuder ariannol darparwyr; er enghraifft, nododd darparwyr anabledd dysgu y gallent wynebu £60,000-£1,054,000 o gostau ychwanegol yn 2016-2017 o ganlyniad i godi'r CBC. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y pwysau a wynebir gan y sector gofal cymdeithasol ac wedi addo neilltuo £10 miliwn y flwyddyn i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r CBC.³² Fodd bynnag, mae amcangyfrifon a ddarparwyd gan CLILC (2018)³³ yn dangos bod pwysau cost sy'n gysylltiedig â'r gweithlu tua £50 miliwn yn 2018-2019 ac y gallent dreblu i £150 miliwn erbyn 2021-2022.

Ffactor arall a allai roi mwy o bwysau ar gyflogau gweithwyr gofal yw prinder sgiliau ac anawsterau o ran cadw talent. Er enghraifft, mae adroddiad gan Workforce Intelligence³⁴ yn amcangyfrif bod y gyfradd drosiant yn niwydiant gofal cymdeithasol annibynnol oedolion Lloegr tua 30.7%, gan awgrymu felly bod tua 390,000 o bobl wedi gadael eu swyddi yn 2017-2018. Ar ben hynny, maent yn adrodd bod cyfraddau trosiant wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi 7.6 pwynt canran o 2012-2013 (23.1%) hyd at 2017-2018 (30.7%), ac mae'n arbennig o uchel ymhlith unigolion iau a gweithwyr ar gyflogau isel.

At hynny, mae Workforce Intelligence hefyd yn amcangyfrif bod 8% o swyddi gofal cymdeithasol annibynnol i oedolion yn 2017-2018 yn wag yn Lloegr,³⁵ neu 110,000 o swyddi, cyfradd o 2.5 pwynt canran yn uwch nag yn 2012-2013 (pan oedd yn 5.5%). Mae awduron yr adroddiad yn dod i'r casgliad, ac ystyried y pwysau demograffig cynyddol a'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol, y gallai'r sector gofal annibynnol ei chael yn anodd ateb y galw yn y dyfodol. Maent hefyd yn nodi bod disgwyl i Brexit ddigwydd dros y misoedd nesaf a gallai hyn gyfyngu hyd yn oed yn fwy ar argaeledd gweithwyr yr UE yn y sector gofal yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau'r DU-UE.

Nododd ymchwil ansoddol yng Nghymru ³⁶ fod *“Pob darparwr gwasanaeth wedi mynegi pryder am brisiau presennol unedau a goblygiadau CBC, gan ddadlau bod llawer o*

³² Mae'r datganiad cysylltiedig i'r wasg ar gael yma: <https://llyw.cymru/ps10m-y-flwyddyn-yn-ychwanegol-ar-gyfer-gofal-cymdeithasol>

³³ Dogfen ar gael yma: <http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1432>

³⁴ Ibid.

³⁵ Hyd y gwyddom, nid oes data tebyg ar gael i Gymru.

³⁶ Atkinson et al (2016) Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref. Ar gael yn:

ddarparwyr y sector annibynnol mewn perygl o beidio â masnachu ac y byddai hyn yn creu anawsterau sylweddol o ran capasiti yn y farchnad gofal cartref". Mewn ymateb i'n harolwg, tynnodd awdurdodau lleol Cymru sylw hefyd at broblemau posibl o ran capasiti'r gweithlu a phrinder sgiliau yng Nghymru a'r canlyniadau o ran pwysau cynyddol ar gyfraddau cyflogau.

A1.3.2 Costau comisiynu: gofal preswyl

Ar gyfer cartrefi gofal, ceir amrywiadau sylweddol yn y gost rhwng preswylwyr gofal y wladwriaeth a phreswylwyr gofal a ariennir yn breifat. Mae LaingBuisson³⁷ yn awgrymu bod y farchnad ar gyfer gofal a ariennir gan y wladwriaeth yn ansicr wrth i awdurdodau lleol a chanddynt gyfyngiadau ariannol geisio sicrhau gwerth am arian drwy gyfyngu ar yr hyn y maent yn ei dalu i ddarparwyr, tra mae'r farchnad ar gyfer gofal a ariennir yn breifat yn gymharol iach.

Mae mater pwysig o ran y bwlch rhwng taliadau ar gyfer preswylwyr a ariennir gan ALL a phreswylwyr sy'n ariannu eu hunain. Gan mai awdurdodau lleol yw'r prif brynwr yn y farchnad cartrefi gofal, efallai eu bod wedi dylanwadu i gynnwys y cynnydd mewn ffioedd a dalwyd. Yn wir, gan ddefnyddio data ar ffioedd cartrefi gofal yn Lloegr rhwng 2008 a 2010, mae Allan et al. (2017)³⁸ yn amcangyfrif maint yr effaith hon ar £40 yr wythnos (h.y. mae awdurdodau lleol yn talu £40 yr wythnos yn llai na phreswylwyr a gaiff eu hariannu'n breifat diolch i'w pŵer yn y farchnad) ac mae'r effaith yn wannach ar y cyfan pan mae llai o gystadleuaeth yn y farchnad cartrefi gofal.

Mae Tabl 9 yn crynhoi dadansoddiad ledled y DU gan LaingBuisson³⁹ ac yn dangos, ar gyfer lefelau tebyg o ansawdd gwasanaeth, fod trigolion sy'n cael eu hariannu eu hunain yn talu llawer mwy na rhai a ariennir gan ALL. Yn unol â hynny, maent hefyd yn adrodd bod cartrefi gofal sydd â chyfraddau uwch o breswylwyr a ariennir yn breifat, ledled y DU, yn fwy proffidiol ar y cyfan na'r rhai sydd â mwy o unigolion a ariennir gan ALLau.

<https://gweddi.gov.wales/docs/caecd/research/2016/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en.pdf>

³⁷ Darllenwch sylwadau LaingBuisson yma: <https://www.laingbuisson.com/wp-content/uploads/2017/05/William-COP.pdf>

³⁸ Dogfen ar gael yma: <https://www.pssru.ac.uk/pub/4559.pdf>

³⁹ Dogfen ar gael yma: <https://www.laingbuisson.com/wp-content/uploads/2017/05/William-COP.pdf>

Tabl 9 Gwahaniaethau mewn ffioedd rhwng preswylwyr a ariennir gan ALL a phreswylwyr sy'n ariannu eu hunain

Categori cartref gofal	Nifer y lleoliadau ystafell unigryw	Cymhareb gyfartalog bwysol o ffioedd a ariennir eu hunain i ffioedd a ariennir gan ALL mewn lleoliadau ystafell unigryw	% y digwyddiadau sydd â ffioedd uwch ar gyfer y rheini sy'n ariannu eu hunain na'r rhai a ariennir gan ALL ar gyfer gwasanaethau tebyg
Cartrefi nyrsio	147	1.41	94.6%
Cartrefi preswyl	304	1.46	96.7%
Pob cartref mewn sampl	451	1.43	96%

Sylwch: dim ond ar gyfer preswylwyr sy'n cael gwasanaethau tebyg y gwnaethpwyd cymhariaeth rhwng preswylwyr a ariennir gan ALL a phreswylwyr sy'n ariannu eu hunain.

Ffynhonnell: LaingBuisson, cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn - dadansoddiad o'r farchnad ac amcanestyniadau.

Mae Allan et al. (2017)⁴⁰ a LaingBuisson⁴¹ yn nodi bod ffioedd a ariennir gan ALL hefyd yn dibynnu ar bŵer marchnad cartrefi gofal, sydd yn ei dro yn swyddogaeth ostyngol o'r bwlch rhwng y galw a'r capasiti: os bydd y galw'n parhau i gynyddu oherwydd tueddiadau demograffig a bod capasiti'n gostwng, yna bydd pŵer y farchnad yn symud o awdurdodau lleol i gartrefi gofal a bydd ffioedd a ariennir gan ALL yn cael eu cywiro am i fyny. Ar y llaw arall, os bydd awdurdodau lleol yn llwyddo i gynnal eu pŵer yn y farchnad, yna bydd ymylon y cartref gofal yn parhau i erydu oherwydd cynnydd i'r CBC.

Mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA, 2017) farn debyg ac mae'n nodi nad yw'r ffioedd presennol y mae ALLau yn eu talu yn gynaliadwy i'r diwydiant sy'n cyflenwi preswylwyr a ariennir gan ALLau, ac y bydd angen arian cyhoeddus ychwanegol ar y model presennol. Yn benodol, maent yn amcangyfrif bod y gost wythnosol gyfartalog ar gyfer y rheini sy'n ariannu eu hunain yn 2016 yn hafal i £846 ledled y DU ond mai dim ond £621 a dalwyd gan ALLau. Gan fod gan chwarter y cartrefi gofal o leiaf 75% o breswylwyr a ariennir gan ALLau, dyma'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o adael y farchnad oherwydd diffyg cyllid. Yng Nghymru, mae'r CMA (2017) yn nodi bod y gwahaniaeth mewn ffioedd rhwng preswylwyr sy'n ariannu eu hunain a'r sy'n cael eu hariannu gan ALL (ar gyfer cartrefi nyrsio a chartrefi gofal preswyl) yn 36%.

⁴⁰ Dogfen ar gael yma: <https://www.pssru.ac.uk/pub/4559.pdf>

⁴¹ Ibid.

A1.3.3 Costau comisiynu: gofal dibreswyl

Ar gyfer gofal dibreswyl, mae Cymdeithas Gofal Cartref y DU (UKHCA, 2018)⁴² yn amcangyfrif bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn talu cyfradd gyfartalog fesul awr o £16.78 i awdurdodau lleol. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y DU (£16.12) ond mae'n llai nag argymhelliad UKHCA o £18.01 yr awr.

Cyhoeddodd UKHCA hefyd y gyfradd isaf a argymhellir ar gyfer awr o ofal cartref yn 2019 (£18.93)⁴³: gan edrych ar dueddiadau diweddar, mae data UKHCA rhwng 2016 a 2019 yn dangos bod yr isafswm pris a argymhellir wedi tyfu bob blwyddyn o 3.8% yn y cyfnod hwnnw (yn gyflymach na chwyddiant). Ar y llaw arall, cynyddodd y ffi gyfartalog fesul awr roedd awdurdodau lleol Cymru yn ei thalu ar gyfradd flynyddol o 5.8% rhwng 2016 a 2018 (yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael), gan awgrymu bod ALLau Cymru yn cau'r bwlch. Yn 2018, talodd tri awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phen-y-bont ar Ogwr) y gyfradd a argymhellir o £18.01 yr awr, neu fwy na hynny.

Gan ddefnyddio data ar faint o oriau o ofal cartref a ddarperir yn adroddiad UKHCA (2018)⁴⁴, nifer y gwasanaethau i bobl hŷn a'r gwariant cysylltiedig, rydym yn cyfrifo y byddai bodloni'r gyfradd a argymhellir gan UKHCA yn gofyn am gynnydd o 5.94% yng nghyfanswm gwariant net 2017-2018.

Ni ddarparodd rhai awdurdodau lleol nifer yr oriau wythnosol (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Bro Morgannwg), y pris cyfartalog a dalwyd (Sir Ddinbych a Thorfaen) neu roedd eu data yn anghyflawn/ar goll ar StatsCymru (Caerffili, Casnewydd a Bro Morgannwg). Er mwyn rheoli hyn, fe wnaethom gyfrifo cyfanswm nifer yr oriau a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol lle'r oedd data cyflawn ar eu cyfer ac yna lluosir'r rhif hwnnw â ffactor graddfa gyfatebol⁴⁵.

Gall tangyllido darparwyr gofal cartref arwain at ganlyniadau andwyol ar y gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, mae CLILC (2018)⁴⁶ yn nodi bod 13 o bob 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi nodi bod contractau gofal cartref yn cael eu trosglwyddo'n ôl iddynt.

Hefyd, mae ffioedd is yn cyfyngu ar allu darparwyr gwasanaethau i gynnig hyfforddiant digonol, gwell telerau cytundebol a chyflogau uwch, ffactorau a allai effeithio'n negyddol ar

⁴² Dogfen ar gael yma: <https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=589>

⁴³ 'Minimum Price for Homecare - Version 6.0' ar gael yn <https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=434#bk1>

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ Yn fwy penodol, cyfanswm nifer yr unigolion 65+ oedd oedd yn derbyn gofal cartref oedd 24,710 yn 2017-2018. Nifer yr unigolion o'r fath yn yr awdurdodau lleol a gyflwynodd ddata cyflawn oedd 17,680, ac felly'r ffactor uwchraddio yn syml yw $24,710/17,680 = 1.38$.

⁴⁶ Dogfen ar gael yma: <http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1432>

gyflenwad gweithwyr gofal cartref. Er enghraifft, mae adroddiad gan Atkinson et al. (2016)⁴⁷ i Lywodraeth Cymru yn nodi bod gweithwyr gofal yn anfodlon â'u cyflogau ac yn credu nad yw'n adlewyrchu lefel cyfrifoldeb eu rolau. Er bod darparwyr gwasanaethau yn cydnabod y mater hwn, maent yn honni bod cyfraddau comisiynu yn eu hatal rhag cynnig gwell amodau. Cwynodd gweithwyr yn y sector annibynnol hefyd am yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chontractau dim oriau, yr oriau gwaith hir, y diffyg cydnabyddiaeth am sgiliau a natur gyfrifol gwaith gofal a'r ffaith nad yw amser teithio'n cael ei ddigolledu'n briodol.

Mae arolwg gan UNSAIN (2018)⁴⁸ yn datgelu mai dim ond 40% o gynghorau yng Nghymru a oedd yn nodi bod yn rhaid talu amser teithio i weithwyr gofal cartref. Mae UKHCA (2019)⁴⁹ yn amcangyfrif bod gweithwyr gofal cartref, ar gyfartaledd, yn teithio bron i 12 munud am bob awr o amser cyswllt y maent yn ei ddarparu.

A1.4 Gwasanaethau ataliol

A1.4.1 Amcanion a strategaethau Llywodraeth Cymru

Diffiniad o atal

Yn gyntaf, rydym yn nodi'r diffiniad o'r dull ataliol fel y nodir yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

Mae dull ataliol yn golygu adeiladu seilwaith cymunedol cryfach mewn cymdogaethau neu ardaloedd a darparu gwasanaethau cyhoeddus hygyrch i oedolion sy'n agored i niwed er mwyn lleihau, gohirio neu atal achosion o allgau cymdeithasol a'r angen i ddarparu cymorth mwy dwys a chostus iddynt. Nid gofal personol i'r rhai ag anghenion sylweddol a chymhleth yw ei brif ffocws ac nid proses syml o ail-labelu gwasanaethau lefel isel traddodiadol, e.e. gwasanaethau golchi dillad na phrydau bwyd ar glud.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Ddeddf yn sôn bod gwasanaethau ataliol yn cynnwys gweithgareddau sy'n gwella ac yn ymestyn ansawdd bywyd.

Amcanion Llywodraeth Cymru

Drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a'r gwasanaethau uchod i

⁴⁷ Atkinson et al. (2016) Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref. Ar gael yn: <https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/research/2016/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en.pdf>

⁴⁸ Dogfen ar gael yma: <https://www.unison.org.uk/content/uploads/2019/01/Pressed-for-time-and-out-of-pocket-docx>

⁴⁹ Dogfen ar gael yma: <https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=434>

gynnal annibyniaeth pobl a darparu cymorth cyn i'r sefyllfa ddod yn argyfwng. O ran atal, yr amcanion polisi yw'r canlynol:

- Atal neu ohirio datblygiad anghenion am ofal a chymorth.
- Lleihau'r galw am ofal a chymorth ymhlith unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath.
- Hyrwyddo magwraeth plant o fewn eu teuluoedd.

Sylwch hefyd, fel rhan o broses ddeddfu'r bil a'r ymdrechion i atal mwy, y bydd awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio'r llwyfan ar-lein Dewis Cymru⁵⁰ a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer ardaloedd gogledd Cymru. Mae'r wefan yn darparu cynnwys naratif i helpu pobl i nodi eu hanghenion eu hunain a cheirlyfr adnoddau.

Y Gronfa Gofal Integredig

Yn 2014-2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gofal Integredig i alluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol⁵¹. Ariennir y gronfa drwy ddryniad cyfalaf a refeniw, a chaiff cyllid ei ddosbarthu ar draws y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). Defnyddir cyfalaf i brynu a gwella asedau, tra mae'r dryniad refeniw yn cwmpasu treuliau gweinyddol a staffio. Yn 2018-2019, roedd cyfanswm dryniad y gronfa yn hafal i £80 miliwn ac fe'i codwyd i £115 miliwn ar gyfer 2019-2020⁵².

Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd y gronfa'n cefnogi prosiectau lleol newydd neu estyniadau i rai sy'n bodoli eisoes, gyda rhai llwyddiannus yn cael eu defnyddio ar y lefel genedlaethol. Mae rhai enghreifftiau⁵³ o brosiectau a ariennir isod:

- Cadw'n Iach Gartref – BPRh Cwm Taf, amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol gartref ac atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty.
- Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaethol – BPRh Bae'r Gorllewin, sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal, neu blant sydd mewn perygl o salwch meddwl, sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol drwy ddarparu cymorth lleoliad arbenigol.
- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu – Mae BPRh Gwent Fwyaf yn cefnogi gofalgwyr yn eu rolau gofalu.

⁵⁰ Dolen i'r platfform: <https://www.dewis.cymru/home>

⁵¹ Mae disgrifiad o'r gronfa, ei chyllid, ei pherfformiad a'r prosiectau a ariennir ar gael yma: <https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-cym.pdf>

⁵² Ibid.

⁵³ Ibid.

Wrth werthuso'r gronfa, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (2019)⁵⁴ yn amcangyfrif ei fod wedi llwyddo i ddod â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r awduron hefyd yn sôn nad yw prif amcan y gronfa – cynyddu prosiectau ar y lefel genedlaethol – wedi'i gyflawni eto, ac yn hytrach mae prosiectau'n cael eu cyflwyno bob blwyddyn yn gyffredinol. At hynny, maent yn nodi nad yw'n glir p'un ai a yw'r gronfa wedi arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau ai peidio, ac nad oes llawer o dystiolaeth bod prosiectau'n cael eu prif ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus.

A1.4.2 Tystiolaeth ymchwil ar effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol

Fel yr amlinellir uchod, mae'r Ddeddf yn llunio disgwyliadau uchel o ran effeithiolrwydd atal. Rydym yn adolygu isod rai astudiaethau ar y pwnc. Mae gwasanaethau ataliol ar gyfer oedolion hŷn wedi'u strwythuro o dan dri phrif bennawd: gwasanaethau ataliol ar gyfer cwmpadau ac annog byw'n annibynnol, atal unigrwydd a mathau eraill o gymorth a gofal atal. Ar ddiwedd yr adran hon, rydym hefyd yn ystyried yn fyr pa mor effeithiol yw gwasanaethau ataliol i blant.

Gwasanaethau ataliol ar gyfer cwmpadau ac i hyrwyddo byw'n annibynnol i oedolion hŷn

Mae adroddiad gan Tudor et al. (2018)⁵⁵ yn manylu ar enillion mawr a chadarnhaol ar fuddsoddiadau ar gyfer gwasanaethau ataliol sydd wedi'u hanelu at bobl hŷn yng Nghymru. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £50 miliwn y flwyddyn ar dai a byw'n annibynnol i addasu cartrefi pobl hŷn i gyflyrau eiddilwch. Amcangyfrifodd yr awduron y gallai'r trethdalwr, am bob £1 a fuddsoddir yn Gofal a Thrwsio Cymru, ddisgwyl arbed £7.50: mewn gwirionedd, gall addasu cartrefi pobl hŷn yn gyffredinol oedi eu mynediad i gartrefi gofal preswyl a gallai gohirio mynediad o un flwyddyn arwain at arbedion sy'n fwy na £30,000 y pen. Mewn arolwg o dderbynwyr Gofal a Thrwsio Cymru, soniodd 14% na fyddent wedi gallu aros yn eu cartrefi heb y gwasanaeth⁵⁶.

Gallai atal cwmpadau hefyd arwain at arbedion ariannol mawr i'r llywodraeth, gan eu bod yn amcangyfrif bod y rhain yn costio dros £2.3 biliwn y flwyddyn i'r GIG. Er enghraifft, gallai ffisiotherapi ataliol a chamau gweithredu eraill leihau cwmpadau ymhlith pobl hŷn yng Nghymru 9,396 bob blwyddyn, gan arwain o bosibl at arbedion o £15.87 miliwn y flwyddyn i'r GIG. O ganlyniad, mae buddsoddi mewn ffisiotherapi ar gyfer atal cwmpadau yn gysylltiedig â budd-daliadau yn fwy na £4 am bob £1 a fuddsoddir.

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Dogfen ar gael yma:

<https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/livingwell2018.pdf>

⁵⁶ Ibid.

Mae adroddiad gan Gofal a Thrwsio Lloegr (2018)⁵⁷ yn amcangyfrif canlyniadau tebyg gyda phob £1 yn cael ei wario ar wasanaeth tasgmon Gofal a Thrwsio Preston⁵⁸ gan leihau costau iechyd a gofal £4.28 dim ond wrth ystyried lleihau'r risg o gwympiadau. Yn nodedig, gostyngodd yr olaf 37% ymhlith pobl hŷn a ofynnodd am gymorth gan y gwasanaeth hwn.

Mae'r astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod 90% o ddefnyddwyr gwasanaeth pobl hŷn yn dweud bod eu lles wedi gwella. Ar ben hynny, dywedodd 96% o'r rhain fod y gwasanaeth yn eu gwneud yn llai pryderus am eu cartref, a dywedodd 77% na fyddent wedi trefnu i rywun wneud y gwaith pe na bai'r gwasanaeth ar gael oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i adeiladwr dibynadwy.

Mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn Unol Daleithiau America, mae Carande-Kulis et al. (2015)⁵⁹ yn amcangyfrif yr enillion ar gyfer gwahanol raglenni atal hyfforddiant corfforol. Am bob £1 a fuddsoddwyd, roedd elw Otago ar fuddsoddiad yn hafal i 36c ar gyfer oedolion 65 oed a throsodd ac £1.27 ar gyfer oedolion 80 oed a hŷn. Yn yr un modd, roedd yr adenillion ar gyfer Tai Chi: Moving for Better Balance a Stepping One yn hafal i £4.91 a 59c am bob £1 a fuddsoddwyd⁶⁰.

At hynny, mewn adolygiad systematig o 60 o RCTs ac arbrofion eraill⁶¹ ar effaith addasiadau i'r cartref, daeth Powell et al. (2017)⁶² i'r casgliad bod tystiolaeth gref y gall mân addasiadau i'r cartref fod yn fesurau cost-ffeithiol i leihau'r risg o gwmpo, gwella perfformiad mewn gweithgareddau bob dydd ac iechyd meddwl. Yn benodol, mae effeithiolrwydd addasiadau o'r fath ar ei fwyaf effeithiol o'i gyfuno ag atgyweiriadau neu welliannau eraill i'r cartref (e.e. gwella goleuadau, cael gwared ar beryglon cwmpo, ac ati).

Mae'r awduron hefyd yn amcangyfrif bod gwaith ataliol i liniaru peryglon sy'n gysylltiedig â chwympadau ar risiau mewn cartrefi ag oedolyn hŷn na 65 oed yn gysylltiedig â ROI cadarnhaol (adenillion ar fuddsoddiad) o £62c am bob £1 a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, maent hefyd yn tynnu sylw at y dystiolaeth ymchwil brin ar gost-ffeithiolrwydd addasiadau

⁵⁷ Dogfen ar gael yma: <http://careandrepair-england.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Small-but-Significant-Handyperson-Evaluation-CRE-2018.pdf>

⁵⁸ Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth gydag atgyweiriadau, addasiadau a gwelliannau yn y cartref. Caiff ei ddarparu i'r rhai sy'n gofyn amdano eu hunain neu drwy atgyfeiriadau.

⁵⁹ Dogfen ar gael yma: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC6604798/>

⁶⁰ Otago, Tai chi: Moving for Better Balance a Stepping One - amrywiol raglenni atal cwympiadau ar gyfer oedolion hŷn.

⁶¹ Cynhaliwyd astudiaethau mewn gwahanol wledydd, gan gynnwys y DU, Awstralia, Seland Newydd, Canada, UDA, Taiwan, Japan, Korea a nifer o wledydd yn Ewrop.

⁶² Dogfen ar gael yma: <https://www.ageing-better.org.uk/sites/default/files/2017-12/The%20role%20of%20home%20adaptations%20in%20improving%20later%20life.pdf>

i'r cartref, ac mae eu canlyniadau ar y manteision sy'n gysylltiedig ag atal cwympiadau yn fwy ceidwadol nag amcangyfrifon eraill a grybwyllir uchod.

Mae adolygiad systematig arall o 31 o astudiaethau gwerthuso economaidd ar gyfer oedolion 60 oed a throsodd yn UDA gan Olij et al. (2018)⁶³ yn cryfhau'r achos dros atal cwympiadau. Nododd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a ddadansoddwyd fod rhaglenni atal o'r fath yn gost-effeithiol, gyda 2 ran o dair yn adrodd am ICERs (cymhareb cost-effeithiolrwydd gynyddol, yn yr astudiaeth hon y gost ychwanegol fesul uned o flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd ar gyfer yr ymyriad dros ofal arferol) islaw USD 50,000, trothwy parodrwyd i dalu a ddefnyddir yn eang yn UDA.

Yn benodol, rhaglenni asesu cartrefi (ICERs < USD 40,000 ar gyfartaledd) oedd y rhai mwyaf cost-effeithiol ar gyfer pobl hŷn mewn annedd gymunedol, a nododd astudiaethau ar gyfer pobl hŷn (dros 75 oed) ICERs is na'r rhai a amcangyfrifwyd ar gyfer y boblogaeth 65 oed a throsodd. Ar y llaw arall, rhaglenni addasu meddyginiaeth⁶⁴ (ICERs < \$13,000) oedd y rhai mwyaf cost-effeithiol i unigolion a osodwyd mewn cartrefi gofal preswyl.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r llenyddiaeth a adolygwyd yn cytuno'n unfrydol ar effeithiolrwydd y gwasanaethau ataliol hyn. Er enghraifft, mae adolygiad systematig o 46 o RCTs ac astudiaethau eraill mewn gofal integreiddiol ataliol⁶⁵ ar gyfer pobl hŷn, eiddil mewn anheddau cymunedol gan Mijntje et al. (2019)⁶⁶ yn dangos nad yw gwasanaethau o'r fath yn arwain at ganlyniadau gwell o'u cymharu â gofal safonol. Yn benodol, mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at y dystiolaeth gyfyngedig sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau o'r fath. Ar ben hynny, nid yw defnyddio gofal iechyd yn cael ei leihau'n sylweddol ar gyfer derbynwyr y gwasanaethau gofal integreiddiol hyn, ac mae effeithiau ar y canlyniadau o ran rhoddwyr gofal anffurfiol a phroffesiynol (e.e. boddhad gofalwr â gofal, baich goddrychol/gwrthrychol gofalwr, ac ati) yn ddibwys ar y cyfan.

Mae'r awduron hefyd yn nodi bod gofal integreiddiol yn ymddangos yn fwy llwyddiannus gyda chanlyniadau goddrychol megis lles a boddhad bywyd, ond roedd effeithiau'r

⁶³ Dogfen ar gael yma:

[https://www.researchgate.net/publication/328320159 Economic Evaluations of Falls Prevention Programs for Older Adults A Systematic Review](https://www.researchgate.net/publication/328320159_Economic_Evaluations_of_Falls_Prevention_Programs_for_Older_Adults_A_Systematic_Review)

⁶⁴ Mae'r rhain yn cynnwys cymryd atchwanegiadau fitaminau D, rhoi'r gorau i ddefnyddio rhai meddyginiaethau sy'n cynyddu'r risg o gwmpo (yn enwedig y rhai sydd â'r nod o wella cwsig, lleihau gorbryder a thrin iselder) a therapïau eraill.

⁶⁵ Nod gofal integreiddiol yw mynd i'r afael ag achosion salwch a phenderfynyddion iechyd drwy gydweithrediad ymysg gwahanol asiantaethau, yn gyffredinol y GIG, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

⁶⁶ Dogfen ar gael yma: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/hsc.12571>

ymyriadau a ddadansoddwyd yn llai tebygol o fod yn sylweddol wrth ystyried mesurau canlyniadau iechyd megis gweithgareddau ADL/IADL ((cyfryngol) bywyd bob dydd).

Mae You et al. (2012)⁶⁷ yn ategu rhai o'r canfyddiadau hyn mewn adolygiad systematig o 15 o RCTs ac astudiaethau arsylwi cymharol a gynhaliwyd yn UDA a gwledydd datblygedig eraill⁶⁸. Mae'r dystiolaeth a ddadansoddir ganddynt yn dangos y gall rheoli achosion (math o ofal integreiddiol) mewn ymyriadau gofal oedran cymunedol arwain at welliannau mewn iechyd seicolegol, lles ac anghenion gwasanaeth heb eu diwallu. Ar y llaw arall, nid arweiniodd yr ymyriadau at well canlyniadau iechyd megis marwolaethau cleientiaid, statws swyddogaethol, cyflyrau meddygol a phroblemau ymddygiad. At hynny, nid oedd effaith sylweddol ar foddhad â gwasanaethau gofal a chanlyniadau gofalwyr ychwaith.

Cefnogir y canlyniadau hyn hefyd gan Stokes et al.(2015)⁶⁹. Adolygodd yr awduron 36 o astudiaethau'n systematig gan ganolbwyntio ar reoli achosion cleifion gofal sylfaenol "mewn perygl", y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn RCTs, a gynhaliwyd yn UDA a gwledydd datblygedig eraill⁷⁰. Y tu hwnt i welliannau bach o ran boddhad cleifion, nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu bod yr ymyriad wedi arwain at well canlyniadau iechyd, lleihau'r defnydd o ofal eilaidd neu gyfanswm y costau.

Yn gyffredinol, mae ymchwil academiaidd yn ymddangos yn gymysg ar effeithiau'r ymyriadau hyn. Er enghraifft, mewn adolygiad systematig o 9 RCT a gynhaliwyd yng Nghanada, yr Eidal ac UDA, mae Eklund & Wilhelmson (2009)⁷¹ yn darparu rhywfaint o dystiolaeth bod gofal integredig a chydgyssylltiedig yn lleihau'r defnydd o ofal iechyd ac felly cyfanswm y costau. Serch hynny, maent yn tynnu sylw at brinder y dystiolaeth sydd ar gael ac yn rhybuddio y dylid dehongli eu canfyddiadau'n ofalus.

I grynhoi, cyfyngir ar gymharu astudiaethau oherwydd yr amrywiadau sylweddol mewn ymyriadau, newidynnau canlyniadau a phoblogaethau, yn ogystal â diffyg tystiolaeth ar gyfer canlyniadau penodol. Er hynny, mae'n ymddangos bod y llenyddiaeth yn dangos bod atal cwympiadau a hyrwyddo byw'n annibynnol yn fesurau cymharol gost-effeithiol, er y gallai eu heffaith amrywio yn dibynnu ar y lleoliad. Ar y llaw arall, mae'r dystiolaeth am effeithiau gwasanaethau ataliol integreiddiol yn fwy cymysg.

⁶⁷ Dogfen ar gael yma: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3508812/>

⁶⁸ Mae'r rhain yn cynnwys Lloegr, Hong Kong, y Ffindir, yr Eidal ac Israel.

⁶⁹ Dogfen ar gael yma: <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0132340>

⁷⁰ Mae'r rhain yn cynnwys y DU, Awstralia, Canada, Ffrainc, Hong Kong, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Sbaen a'r Swistir.

⁷¹ Dogfen ar gael yma: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/j.1365-2524.2009.00844.x>

Atal unigrwydd ymysg oedolion hŷn

Mae astudiaethau amrywiol hefyd yn cofnodi manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol atal unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Er enghraifft, mae Tudor et al. (2018)⁷² yn nodi bod pobl hŷn unig 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fynd i gartref gofal preswyl, 3.4 yn fwy tebygol o ddioddef o iselder, 1.8 gwaith yn fwy tebygol o ymweld â'u meddyg teulu, 1.6 gwaith yn fwy tebygol o ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys ac 1.3 gwaith yn fwy tebygol o fynd i adran derbyniadau brys. Ar ben hynny, mae'r unigolion hyn hefyd yn tueddu i fod yn fwy agored i glefydau penodol, megis clefydau coronaidd y galon (14%), strôc (8%) a diabetes (7%).

Er ein bod yn nodi y gallai'r rhai sydd heb eu diogelu ysgogi'r tebygolrwydd o fod yn unig a'r canlyniadau a ystyriwyd, gyda 17% o unigolion 75-79 oed a 63% o bobl hŷn nag 80 yn dweud eu bod yn unig yn y DU (WRVS, 2012)⁷³, mae'n ymddangos bod cryn le i wella lles ymhlith yr unigolion hyn.

Ymhlith yr atebion posibl a ddatblygwyd gan Tudor et al. (2018)⁷⁴ i fynd i'r afael ag unigrwydd mae gwell cludiant cymunedol (adenillion £3 am bob £1 a fuddsoddir) a rhaglenni celf/crefft (£8.27-£10 am bob £1 a fuddsoddir), yn ogystal â mentrau sy'n dwyn cenedlaethau ynghyd (e.e. plant ac oedolion hŷn) neu dechnolegau newydd (e.e. gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol neu fideoalwad). At hynny, gall ymyriadau yn y gymuned (e.e. yng Nghymru Prifysgol y Drydedd Oes, Sied Dynion, Cymdeithas Cymry Dinbych, ac ati) hefyd gynnig enillion cadarnhaol o £1.11-£4 am bob £1 a fuddsoddir, heb sôn bod yr atebion a ddisgrifir uchod yn gyffredinol gysylltiedig â gwelliannau llesiant a manteision cymdeithasol ehangach.

Mae adolygiad systematig o fwy na 50 o astudiaethau (hanner ohonynt yn y DU) gan McDaid et al. (2017)⁷⁵ yn cyflwyno tystiolaeth fwy cymysg. Roedd effeithiolrwydd mentrau cyfeillio a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn amrywio'n sylweddol ar draws astudiaethau ac nid yw'n glir a ydynt yn creu manteision economaidd ai peidio. Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod cyfeirio/llywio gwasanaethau yn cynhyrchu ROI uwch yn

⁷² Dogfen ar gael yma:

<https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/livingwell2018.pdf>

⁷³ Dogfen ar gael yma:

https://www.royalvoluntaryservice.org.uk/Uploads/Documents/How_we_help/loneliness-amongst-older-people-and-the-impact-of-family-connections.pdf

⁷⁴ Dogfen ar gael yma:

<https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/livingwell2018.pdf>

⁷⁵ Dogfen ar gael yma: <https://campaigntoendloneliness-rspmbr9ezvmofjn.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/CTEL-summary-doc-final-15.9.17.docx>

amrywio o £2 i £3 am bob £1 a fuddsoddir, er bod yr amcangyfrifon hyn yn dibynnu ar is-set lai o astudiaethau diweddar.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos y gallai atal unigrwydd fod yn fesur cost-effeithiol, ond mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu y gallai natur yr ymyriad arwain at amrywiadau sylweddol mewn canlyniadau.

Mathau eraill o gymorth atal a gofal i oedolion hŷn

Gall gwasanaethau ataliol i hen ofalwyr hefyd sicrhau manteision nad oes modd eu hanwybyddu. Yn benodol, mae Tudor et al. (2018)⁷⁶ yn nodi bod y defnydd o wasanaethau iechyd ymhlith gofalwyr yn cynyddu'n gyffredinol wrth i'r llwyth gofalu gynyddu, a Chymru sydd â'r ganran uchaf o ofalwyr hŷn di-dâl yn y DU gydag 1 o bob 3 o bobl dros 50 oed yn ofalwyr di-dâl. Er enghraifft, maent yn adrodd bod cymorth gan gymheiriaid i bobl â dementia a gofalwyr yn cynnig enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad sy'n amrywio o £1.17 i £5.18 am bob £1 a fuddsoddir.

Gwasanaethau ataliol i blant

Mae astudiaeth gan y King's Fund a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2014)⁷⁷ sy'n amddiffyn yr achos dros ymyriadau iechyd cyhoeddus yn Lloegr yn nodi nifer o fanteision sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ataliol i blant. Er enghraifft, gallai pob £1 sy'n cael ei wario ar atal beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau arbed £11 mewn costau gofal. At hynny, gall rhaglenni atal ysmygu mewn ysgolion ddychwelyd hyd at £15 am bob £1 a fuddsoddir, tra gall rhaglenni rhianta a gynlluniwyd i atal anhwylder ymddygiad ddychwelyd £8 dros 6 blynedd am bob £1 a fuddsoddir.

A1.4.3 Casgliadau

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y dystiolaeth am wasanaethau ataliol yn dangos y gall y rhain leihau costau gofal cymdeithasol o bosibl, er bod graddau'r effeithiau hyn yn ymddangos yn gyfyngedig ac wedi'u cyfyngu'n bennaf i achosion penodol o ddefnydd, megis atal peryglon cwympiadau. Serch hynny, roedd gwasanaethau gofal ataliol ac integreiddiol yn gyffredinol yn gysylltiedig â lefelau uwch o foddhad a lles ymhlith derbynwyr gofal, canlyniad cadarnhaol os yw'r gost o ddarparu gwasanaethau o'r fath yn debyg i'r un ar gyfer gofal arferol.

⁷⁶ Dogfen ar gael yma:

<https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/livingwell2018.pdf>

⁷⁷ Dogfen ar gael yma: <https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/media/making-case-public-health-interventions-sep-2014.pdf>

A1.5 Technolegau newydd

A1.5.1 Strategaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru⁷⁸ wedi mynegi ei dymuniad i fanteisio ar dechnolegau a dulliau gweithredu newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. I'r perwyl hwnnw, sefydlodd y Gronfa Weddnewid gwerth £100 miliwn yn 2018 i ddatblygu a gweithredu modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor gyda'r potensial i'w cyflwyno ar y lefel genedlaethol a bodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae amcanion y gronfa yn cyd-fynd yn bennaf â rhai'r Gronfa Gofal Integredig, gyda phwyslais cryf ar hyrwyddo lles a gwasanaethau ataliol, ac mae buddsoddi mewn technolegau newydd wedi'i ddiffinio'n glir fel galluogwr allweddol ar gyfer newid.

Yn fwy penodol, mae ei strategaeth o ran yr olaf yn golygu'r camau canlynol:

- Cyflymu'r cynnydd tuag at seilwaith digidol cenedlaethol cwbl integredig.
- Buddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol o fewn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol i gyflymu newid digidol.
- Datblygu dull "platform agored" o arloesi digidol drwy gyhoeddi safonau cenedlaethol ar feddalwedd a'r ffyrdd y gall partneriaid allanol ryngweithio ag adnoddau digidol cenedlaethol.
- Cynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith digidol.
- Sefydlu adnodd data cenedlaethol i ganiatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n ddiogel.

Yng ngweddill yr adran rydym yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar ddefnyddio technolegau newydd ym maes gofal cymdeithasol; mae sut y mae'r datblygiadau arloesol wedi'u dosbarthu yn dilyn yn fras yr hyn a roddwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes (IPC wedi hynny, 2016)⁷⁹.

A1.5.2 Tystiolaeth ymchwil ar ddefnyddio technolegau newydd ym maes gofal cymdeithasol

Integreiddio gwasanaethau a gwybodaeth

Mae'r IPC (2016)⁸⁰ yn nodi, er mwyn darparu gwasanaethau gofal personol, ei bod yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am unigolyn yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol ac nid dim ond yr un sy'n ymwneud â'i sefydliad neu dasg

⁷⁸ Dogfen ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

⁷⁹ Dogfen ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

⁸⁰ Ibid.

benodol. Er enghraifft, maent yn sôn am y Leeds Care Record, a weithredwyd gan lywodraeth leol Leeds, fel enghraifft o rannu gwybodaeth yn llwyddiannus sy'n arbed amser ac yn gwella canlyniadau iechyd. Maent hefyd yn cyfeirio at Cumbria a weithredodd atgyfeiriadau electronig drwy Strata i gefnogi'r gwaith o drosglwyddo gofal yn effeithiol, a chredir bod y system wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol o £400,000.

Fel y nodwyd gan Blackwood (2018)⁸¹, Coordinate My Care, mae cynllun GIG Llundain yn enghraifft arall o integreiddio gwasanaethau. Mae'r platfform TG ar y we yn caniatáu cynllunio gofal diwedd oes aml-ddisgyblaethol. Mae defnyddwyr yn elwa ar gyfraddau cydymffurfio uwch gyda'r dewis maent wedi'i nodi ar gyfer lleoliad y farwolaeth (mae 17% ohonynt yn marw mewn ysbytai yn erbyn 47% ar y lefel genedlaethol). Yn ogystal â hynny, mae'r system yn arbed hyd at £2,100 y claf i'r GIG.

Yng Nghymru, mae System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn caniatáu rhannu gwybodaeth yn ddiogel ar draws asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol⁸². Ar ben hynny, mae Mynegai Cleifion Meistr⁸³ yn galluogi adnabod cleifion yn unigryw er mwyn eu croesgyfeirio â chofnodion sydd wedi'u storio mewn cronfeydd data eraill, tra mae Gwasanaeth Demograffeg Cymru⁸⁴ yn cadw manylion demograffeg pobl.

Rhyngweithio â gwasanaethau gofal drwy sianeli digidol

Mae'r IPC (2016)⁸⁵ yn nodi bod awdurdodau lleol yn dechrau cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer hunanasesu a hunanwasanaethu nwyddau a gwasanaethau ar-lein. Gall hyn arwain at lai o gostau cefn swyddfa i'r awdurdodau lleol yn ogystal â mwy o foddhad ymhlith defnyddwyr. Ar ben hyn, mae'n hwyluso'r broses y mae dinasyddion yn ei defnyddio i gael gafael ar eu gwybodaeth eu hunain.

Er enghraifft, datblygodd cyngor Harrow ddull "e-bwrs cymunedol" sy'n galluogi dinasyddion i gael mynediad at eu gwasanaethau drwy wefan ar-lein, ac mae'n amcangyfrif y gallai'r cynllun sicrhau arbedion o £8 miliwn mewn costau cefn swyddfa a phrynu ers ei lansio yn 2014 i 2020-2021.

⁸¹ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

⁸² Edrychwch yma: <https://www.basw.co.uk/system/files/resources/180608healthier-wales-mainen.pdf>

⁸³ Edrychwch yma: <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/151215reporten.pdf>

⁸⁴ Edrychwch yma: <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/151215reporten.pdf>

⁸⁵ Dogfen ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

Mae Blackwood (2018)⁸⁶ hefyd yn sôn am Cera, darparwr gofal cartref sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg sy'n darparu gofal iechyd o ddrws i ddrws (e.e. presgripsiynau) a gwasanaethau ategol (e.e. bwyd neu dacsí). Caiff y platfform ei gefnogi gan ddangosfwrdd sy'n hygyrch i roddwyr gofal ac aelodau o'r teulu er mwyn monitro statws dosbarthu gofal mewn amser real.

Yng Nghymru, mae Fy Iechyd Ar-lein⁸⁷ yn caniatáu i ddefnyddwyr drefnu apwyntiadau meddygon teulu a phresgripsiynau rheolaidd ar-lein. Mae Patients Know Best⁸⁸ yn caniatáu i ddinasyddion Cymru gael gafael ar eu cofnodion meddygol a'r wybodaeth ddiweddaraf am driniaethau, meddyginiaethau ac alergeddau ar-lein. Gallant hefyd gael gafael ar negeseuon gan glinigwyr yn ogystal â chanlyniadau profion.

Hyrwyddo annibyniaeth a lles drwy wasanaethau digidol

Mae'r IPC (2016)⁸⁹ hefyd yn nodi y gallai technolegau leihau'r angen am ofal cartref a helpu i fonitro achosion o orweithio ymysg gofalwyr. I blant, maent yn nodi y gallai technolegau newydd ddarparu lefelau uwch o hyder a lleihau absenoldeb o'r ysgol, tra gallai gwasanaethau digidol hefyd leihau teimladau o ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Yn ddiweddar, canolbwyntiwyd ar fonitro rhybuddion rhagweithiol yn hytrach na larymau personol. Gall hyn leihau'r angen i ddarparu cymorth "cysgu i mewn" yn ogystal â chynyddu'r ymdeimlad o annibyniaeth ymhlith derbynwyr.

Mae cyngor Hampshire⁹⁰ yn enghraifft lwyddiannus o roi technolegau cynorthwyol ar waith (e.e. larymau, synwryddion cwmp, technoleg olrhain GPS ar gyfer pobl â dementia, nodiadau atgoffa am feddyginiaeth, synwryddion ac ati). Datblygodd y cyngor ddull "technoleg agnostig", h.y. y nod oedd canolbwyntio ar y rhwystrau y mae angen i ofal cymdeithasol fynd i'r afael â nhw yn hytrach nag ar dechnoleg benodol i'w defnyddio. Yn 2015-2016, roedd 2,931 o bobl hŷn yn defnyddio'r gwasanaeth newydd hwn ac amcangyfrifir ei fod wedi arwain at arbedion net o £1.9 miliwn drwy leihau'r ddibyniaeth ar ofal cartref nad yw'n bersonol, oedi wrth dderbyn cleifion mewn cartrefi gofal a llai o orweithio ymysg gofalwyr.

⁸⁶ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

⁸⁷ Edrychwch yma: <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/151215reporten.pdf>

⁸⁸ Edrychwch yma: <https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/wp-content/uploads/sites/2/2018/11/Digital-Inclusion-in-Health-and-Care-in-Wales-Cym.pdf>

⁸⁹ Dogfen ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

⁹⁰ Ibid.

Mae enghraifft ddiddorol arall a nodwyd gan Blackwood (2018)⁹¹ yn ymwneud â Big White Wall, gwasanaeth iechyd digidol sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef o orbryder, iselder a chyflyrau cysylltiedig eraill. Mae'r platfform yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu'r hyn sy'n eu poeni yn ddiennw gydag aelodau eraill, ac mae hefyd wedi datblygu rhaglenni i leihau'r defnydd o alcohol a rhoi'r gorau i ysmegu. Mae Blackwood (2018)⁹² yn adrodd bod lles 67% o'r defnyddwyr wedi gwella diolch i'r wefan, ac mae 1 o bob 2 aelod yn rhannu problem am y tro cyntaf ar y platfform.

Mae'r awdur hefyd yn sôn am y gwasanaeth Echo sy'n darparu meddyginiaethau gartref ac yn rhoi cyfarwyddiadau a nodiadau atgoffa i gleifion am faint o feddyginiaethau mae angen iddynt eu cymryd, ynghyd â nodiadau hysbysu pan fydd angen presgripsiwn rheolaidd arnynt. Mae'r ap yn cysylltu cleifion â phractisiau meddygon teulu'r GIG⁹³ a dim ond gyda fferyllfeydd y GIG sydd wedi'u hachredu'n llawn yn y DU y mae'n gweithio. Dywed yr awdur fod y gwasanaeth wedi cyfrannu at ostyngiadau mewn apwyntiadau meddygon teulu/adrannau damweiniau ac achosion brys munud olaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu presgripsiynau a llai o dwyll presgripsiynau.

Yng Nghymru, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu amrywiol adnoddau hyfforddi ar-lein sy'n gysylltiedig â thechnolegau cynorthwyol ym maes gofal cymdeithasol i annog byw'n annibynnol⁹⁴.

Integreiddio prosesau comisiynu drwy ddadansoddi data yn well

Mae'r IPC (2016)⁹⁵ yn nodi bod comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gofyn am ddarogan patrymau gweithgarwch a rhagweld costau defnyddio yn y dyfodol. Er mwyn gwella'r broses hon, mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr (e.e. Caint, Swydd Gaerlŷr, Dinas Caerlŷr)⁹⁶ wedi bod yn defnyddio microddata iechyd a gofal cysylltiedig, diennw. Mae hyn yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i gymryd ymagwedd fwy proffwydol a rhagweithiol o ran comisiynu gwasanaethau gofal. Er enghraifft, mae Cynghair Gorllewin Llundain wedi arbed £10 miliwn y flwyddyn⁹⁷ drwy ddefnyddio CarePlace, adnodd rheoli'r farchnad ar

⁹¹ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

⁹² Ibid.

⁹³ Dim ond drwy bractisiau meddygon teulu sy'n rhan o Wasanaeth Presgripsiynau Electronig y GIG y mae'r gwasanaeth ar gael.

⁹⁴ Edrychwch yma: <https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/technoleg-gynorthwyol>

⁹⁵ Dogfen ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

⁹⁶ Ibid.

⁹⁷ Ibid.

gyfer gofal cymdeithasol sy'n galluogi arbedion effeithlonrwydd mewn lleoliadau gofal preswyl a nyrsio drwy nodi gwahaniaethau mewn prisiau a gaiff eu talu.

Mae Blackwood (2018)⁹⁸ yn nodi sawl gwasanaeth sydd wedi'u hanelu at ofal iechyd gyda rhaglenni posibl wrth ddarparu gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r awdur yn sôn am y gwasanaeth testun ar-lein DrDoctor sy'n caniatáu i gleifion reoli eu harchebion yn ddigidol, gan helpu ysbytai i ymdrin â nifer y cleifion yn ôl eu capasiti. At hynny, gall dargedu rhestrau aros hir a llenwi slotiau gwag; yn gyffredinol, mae'r awdur yn nodi bod hyn yn lleihau'r amser o gysylltu am y tro cyntaf o wyth diwrnod, yn cwtogi rhestrau aros 10-15% ac wedi arwain at arbedion cyfartalog o £1.5 miliwn ar gyfer pob ymddiriedolaeth aciwt.

Yng Nghymru, mae System Gweinyddu Cleifion Cymru⁹⁹, platfform a ddefnyddir gan 6 allan o 7 bwrdd iechyd yn 2015,¹⁰⁰ yn helpu asiantaethau i reoli'r broses o amserlennu cleifion.

Galluogi gweithwyr gofal proffesiynol i weithio o unrhyw le ar unrhyw adeg

Fel y nodwyd gan IPC (2016)¹⁰¹, mae ymddangosiad timau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol yn cryfhau'r achos dros alluogi gofalmwyr i weithio o sawl lleoliad heb orfod defnyddio gwahanol fanylion mewngofnodi, cyfeiriadau e-bost ac ati. Mae'r awduron yn nodi bod modd cyflawni hyn drwy ddulliau cydweithredu syml fel cyfeiriaduron e-bost a rennir, calendrau, cyfeiriaduron gwasanaeth a negeseuon gwib. Mae sawl llywodraeth leol (e.e. Caint, Leeds, Llundain ac ati)¹⁰² eisoes wedi mabwysiadu'r adnoddau hyn.

Mae Blackwood (2018)¹⁰³ yn cynnig rhai enghreifftiau diddorol o deleofal. Er enghraifft, mae Kraydel wedi datblygu meddalwedd fideo a alluogir gan y teledu i alluogi perthnasau a gweithwyr gofal i ddarparu gofal o bell i gleifion oedrannus sy'n cael gofal cartref. Mae hyn yn cynnwys sgwrsio dros fideo, meddyginiaeth, nodiadau atgoffa am ddigwyddiadau a rhybuddion awtomataidd sy'n cael eu gyrru gan ddata ar gyfer rhoddwyr gofal. Yn yr un modd, mae Rally Round yn caniatáu i ffrindiau a pherthnasau ddarparu gofal ar y cyd drwy

⁹⁸ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

⁹⁹ Edrychwch yma: <https://gweddi.gov.wales/docs/dhss/publications/151215reporten.pdf>

¹⁰⁰ Gweler y ddolen uchod.

¹⁰¹ Dogfen ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

¹⁰² Ibid.

¹⁰³ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

blatfform ar-lein sy'n caniatáu creu rhwydweithiau preifat ac adnoddau cydweithredu (e.e. Rhestrau pethau i'w gwneud, hysbysfyrddau grŵp, ac ati).

Yng Nghymru, mae cleifion dros 85 oed yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymgynghori â'u meddygon o bell¹⁰⁴. Mae canlyniadau'r prosiect yn galonogol gydag 83% o'r derbynwyr yn dweud y byddent yn argymhell teleofal i berthnasau a ffrindiau, ac arbedodd pob claf 64 munud o amser teithio i'r clinigau ac ohonynt ar gyfartaledd¹⁰⁵.

Awtomeiddio gwasanaethau

Amlinellodd yr IPPR (Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus)¹⁰⁶ y gallai awtomeiddio ac AI arwain o bosibl at enillion economaidd o £12.5 biliwn mewn gofal iechyd a £5.9 biliwn yn y sector gofal cymdeithasol ledled y DU. Yn nodedig, bydd y technolegau newydd hyn yn ategu ac yn cefnogi rhoddwyr gofal drwy leihau'r baich sy'n gysylltiedig â thasgau gweinyddol (e.e. cyfleu nodiadau meddygol, trefnu apwyntiadau, prosesu presgripsiynau, ac ati) yn hytrach na disodli swyddi. Mae Tabl 10 yn darparu amcangyfrifon y DU o'r amser posibl fydd yn cael ei ryddhau a'r arbedion disgwylidiedig i weithwyr gofal cymdeithasol o ganlyniad i awtomeiddio.

Mae enghraifft o awtomeiddio gwasanaethau a ddarperir gan Blackwood (2018)¹⁰⁷ yn ymwneud ag ArtemusICS, deallusrwydd iechyd poblogaeth sy'n cael ei lywio gan ddata. Mae ArtemusICS yn cynnig ystod eang o ddulliau i roddwyr gofal, megis cynllunio adnoddau gan CCG (grŵp comisiynu clinigol) neu feddyg teulu, adnabod cleifion yn ôl gwahanol fetrigau, olrhain effeithiolrwydd ymyriad, dangosfyrddau cyflyrau hirdymor, adnabod cleifion y mae angen gofal diwedd oes arnynt, amlgyffuriaeth a rheoli meddyginiaeth, dadansoddiad ail-dderbyn, offer modelu ac eraill.

O'r herwydd, mae ArtemusICS yn cefnogi timau cymunedol drwy helpu i nodi cleifion sy'n dueddol o fod angen mynd i'r ysbyty yn y dyfodol ac felly'n cynnig cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar. Ynghyd â Docobo, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Gymunedol Sussex gynllun peilot teleiechyd gyda 92 o gleifion mewn cartrefi gofal, ac roedd y canlyniadau'n galonogol iawn gyda derbyniadau i'r ysbyty ymhlith preswylwyr cartrefi gofal hyn yn gostwng hyd at 75%.

¹⁰⁴ Edrychwch yma: <https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/wp-content/uploads/sites/2/2018/11/Digital-Inclusion-in-Health-and-Care-in-Wales-Cym.pdf>

¹⁰⁵ Gweler y ddolen uchod.

¹⁰⁶ Dogfen ar gael yma: <https://www.ippr.org/files/2018-06/better-health-and-care-for-all-june2018.pdf>

¹⁰⁷ Dogfen ar gael yma: <http://www.public.io/wp-content/uploads/2018/04/PUBLIC-The-Promise-of-HealthTech.pdf>

Tabl 10 Adnoddau amser ac arian y mae posibl eu rhyddhau yn sgil awtomeiddio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol

Rôl y swydd	Amser posibl a gaiff ei ryddhau ar gyfer gofal a gweithgareddau gwerth ychwanegol (%)	Arbedion disgwylidig (£ miliwn)
Gweithiwr gofal	24	3,425
Rheoli	36	1,322
Nyrs gofrestredig	29	397
Uwch weithiwr gofal	24	377
Cymorth ac allgymorth	24	252
Gofal uniongyrchol arall	24	96
Gweithiwr cymdeithasol	11	62
Therapyddion galwedigaethol	25	21
Proffesiwn arall a reoleiddir	21	13
Cyfanswm	Amh	5,969

Ffynhonnell: IPPR, Better health and care for all.

Mae adroddiad gan Ddau Dŷ'r Senedd¹⁰⁸ hefyd yn tanlinellu nad yw roboteg yn cael ei defnyddio'n aml ar hyn o bryd yn y sector gofal cymdeithasol. Yn hollbwysig, mae'r adroddiad yn nodi y gallai roboteg greu arbedion drwy alluogi pobl hŷn i fyw yn eu cartrefi am fwy o amser ac atal pobl rhag mynd i'r ysbyty oherwydd cwmpïadau a salwch. Mae rhai enghreifftiau nodedig a nodwyd yn eu hadroddiad yn cynnwys Robear, dyfais robotig i helpu i godi cleifion, a Hector, robot sy'n monitro cleifion sydd wedi cwmpo ac sydd wedi'i integreiddio â gwasanaethau galwadau brys a monitro o bell.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn atgoffa'r darlennydd bod defnyddio roboteg mewn gofal cymdeithasol yn codi nifer o faterion moesegol, cyfreithiol a rheoliadol. Mae rhai enghreifftiau penodol yn cynnwys pryderon preifatrwydd, risgiau diogelwch (e.e. diffygion robotiaid, hacio), rhagfarn sy'n gynhenid i systemau AI, ansicrwydd ynghylch personoliaeth gyfreithiol robotiaid a'u hatebolrwydd cyfreithiol.

A1.5.3 Casgliadau

Yn gyffredinol, mae ymchwil ar dechnolegau newydd yn ymwneud yn bennaf â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, gan ddylanwadu ar y ddarpariaeth gofal drwy'r ddwy sianel ganlynol: (i) helpu unigolion gartref drwy nodiadau atgoffa, robotiaid, rhybuddion clyfar a dyfeisiau eraill (ii) a chynyddu posibiliadau teleofal diolch i adnoddau

¹⁰⁸ Dogfen ar gael yma:

<https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/POST-PN-0591#fullreport>

cydweithredol, rhwydweithiau cymdeithasol preifat, negeseuon fideo a sianelau digidol eraill.

Ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd, mae technolegau newydd yn caniatáu i wahanol asiantaethau gydweithio'n fwy effeithiol a lleihau'r straen ar y system gofal cymdeithasol diolch i gronfeydd data a rennir a gwell data ar alw defnyddwyr. Ar ben hynny, gallai roboteg ac AI arwain o bosibl at awtomeiddio nifer o dasgau gweinyddol ac felly rhyddhau llawer o amser i weithwyr gofal cymdeithasol.

Gan ddefnyddio cyfrifiadau IPPR, rydym yn cyfrifo y gallai cyfanswm yr arbedion mewn costau gofal cymdeithasol yn sgil awtomeiddio, AI a thechnolegau digidol fod yn 18.83%¹⁰⁹ o gyfanswm costau gofal cymdeithasol 2017-2018 ar gyfer y DU. Sylwer bod y rhain yn cyfateb i'r arbedion mwyaf posibl y gellir eu cyflawni ar ôl goresgyn rhwystrau posibl i fabwysiadu. O'r herwydd, dylid ystyried y ffigur hwn fel un sydd wedi'i rwymo'n uwch ar yr arbedion ymarferol posibl y gellir eu gwireddu diolch i dechnolegau newydd.

A1.6 Gwasanaethau plant

A1.6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno tueddiadau hanesyddol ac yn trafod pwysau cost posibl yn y dyfodol sy'n effeithio ar wasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Casglwyd tystiolaeth gan Awdurdodau Lleol Cymru mewn arolwg a baratowyd gan LE Wales ac a weinyddwyd ym mis Gorffennaf/Awst 2019.

A1.6.2 Tueddiadau hanesyddol

Mae data ar nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gael gan StatsCymru. Dim ond ar StatsCymru y mae'r categorïau sy'n nodi derbynwyr gwasanaethau ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal', tra mae data ar wariant hefyd yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau eraill (e.e. gofal plant, gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ac ati).

Mae Ffigur 11 yn dangos bod nifer y 'plant sy'n derbyn gofal' wedi cynyddu o 4,635 yn 2007-2008 i 6,405 yn 2017-2018. Gostyngodd y boblogaeth gyffredinol 18 oed ac iau yng Nghymru o 640,000 i lai na 630,000 yn yr un cyfnod. O ganlyniad i'r tueddiadau amrywiol hyn, cynyddodd y gyfran gyfatebol o'r boblogaeth gyffredinol 18 oed ac iau a oedd yn derbyn gofal o 0.72% yn 2007-2008 i 1.02% yn 2017-2018.


¹⁰⁹ Ar gyfer y costau gofal cymdeithasol ledled y DU (£31.7 biliwn yn 2017-2018), gweler y ddogfen ganlynol:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/818399/CCS001_CCS0719570952-001_PESA_ACCESSIBLE.pdf

Dros y degawd rhwng 2007-2008 a 2017-2018, mae'r gwariant cyfredol net real fesul plentyn sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 11% (cyfradd twf gyfartalog flynyddol gyfatebol o 1.08%), fel y gwelir yn Ffigur 12.

Mae Ffigur 12 yn datgelu tuedd debyg ar gyfer y gwariant cyfredol net real fesul plentyn (h.y. y boblogaeth gyffredinol o dan 18 oed). Rhwng 2007-2008 a 2017-2018, mae hyn wedi cynyddu bron 35% (cyfradd twf gyfartalog flynyddol gyfatebol o 3.05%).


Ffigur 11 Tueddiadau yn y boblogaeth o dan 18 oed o nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru



Ffynhonnell: StatsCymru;

Nodyn: Panel ochr chwith: poblogaeth o dan 18 oed. Panel ochr dde: plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth

Ffigur 12 Gwariant cyfredol net real fesul plentyn sy'n derbyn gofal a fesul plentyn (o dan 18 oed)



Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales yn seiliedig ar ddata poblogaeth a gwariant gan StatsCymru a data chwyddiant gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Nodyn: Panel ochr chwith: (i) plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl yr awdurdod lleol a'r math o leoliad a (ii) gwariant alldro refeniw'r gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid; ar gyfer data chwyddiant y gyfres berthnasol yw mynegai'r CPI

Panel ochr dde: (i) amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn a (ii) gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid; ar gyfer data chwyddiant y gyfres berthnasol yw mynegai'r CPI

A1.6.3 Ffactorau sy'n sbarduno'r galw am wasanaethau plant

Mewn asesiad o'r ffactorau sy'n gyrru'r cyfraddau cymharol uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, daeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru¹¹⁰ i'r casgliad bod perthynas gadarnhaol gref (er nad yw o reidrwydd yn achosol) rhwng lefelau amddifadedd a nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwariant ar blant sy'n derbyn gofal, wrth gymharu'r sefyllfa mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru. Nodwyd hefyd bod ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gyfraddau cymharol plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys: gwahaniaethau mewn polisïau ac arferion ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ar draws awdurdodau lleol; a chyfraddau gwahanol o gam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau gan rieni a salwch meddwl rhieni. Maent hefyd yn nodi y gall penderfyniadau'r llys teulu hefyd ddylanwadu ar nifer y plant sy'n derbyn gofal, gan nodi bod ceisiadau am orchmynion gofal yn digwydd ar gyfradd uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'r gyfradd drosi i orchmynion gofal dilynol hefyd yn uwch yng Nghymru.

Mewn ymateb i'n harolwg byr, awgrymodd awdurdodau lleol Cymru y gallai'r cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal fod o ganlyniad i nifer o ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys amddifadedd.

Mae ymchwil yn Lloegr yn dod i gasgliadau tebyg. Er enghraifft, mae adroddiad gan Gymdeithas Cyngorau'r Gogledd Ddwyrain¹¹¹ yn nodi bod cysylltiad amlwg rhwng amddifadedd â'r amrywiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn awdurdod lleol. Mae adroddiad gan Newton Europe (2018)¹¹² ac a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol hefyd yn cefnogi'r syniad hwn. Yn nodedig, maent yn nodi pum ffactor sy'n cyfrif am ychydig dros hanner yr amrywiadau mewn gwariant gofal cymdeithasol i blant ar draws awdurdodau lleol Lloegr¹¹³: amddifadedd (sy'n cyfrif am 31% o'r amrywiadau ynddo'i hun), maint y boblogaeth o dan 25 oed (cydberthynas negyddol), incwm gwario aelwydydd,

¹¹⁰ WCPP (2019) Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru - Papur Briffio (Diwygiedig). Ar gael yma: <https://dera.ioe.ac.uk/34055/2/CYM-190725-Analysis-of-Factors-Contributing-to-High-Rates-of-Care-REVISED.pdf>

¹¹¹ Dogfen ar gael yma: <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Children%E2%80%99s%20Social%20Care%20Needs%20and%20Cost%20Drivers.docx>

¹¹² Dogfen ar gael yma: https://newton-cdn.ams3.cdn.digitaloceanspaces.com/pdfs/hybrid/spend_on_services.pdf

¹¹³ Nodwyd y newidynnau hyn gan ddefnyddio dewisiadau ymlaen llaw a'r meini prawf i wneud y gorau ohonynt oedd yr R2 cysylltiedig o'r model.

diweithdra a lefelau troseddolrwydd. Mae ymchwil i Loegr gan ADCS (2018)¹¹⁴ yn amcangyfrif bod 69% o blant sy'n derbyn gofal wedi profi cam-drin domestig gartref.

A1.6.4 Pwysau cost yn y dyfodol

Yn gyffredinol, mae rhagweld patrymau galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn dasg gymharol gymhleth. Yn Lloegr, mae adroddiad gan Aldaba a'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (2016)¹¹⁵ yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ceisio gwneud hynny nac yn troi at dechnegau rhagweld sylfaenol (e.e. allosod yn seiliedig ar y gyfradd twf gyfartalog a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol). Mae'r adroddiad yn sôn bod y galw am y gwasanaethau hyn yn tueddu i gael ei ysgogi gan dueddiadau demograffig-gymdeithasol sy'n anodd eu rhagweld, megis dyfarniadau llys ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar blant (e.e. troseddu, iechyd meddwl ac ati).


Mae cyfanswm y gwariant cyfredol net real ar ofal cymdeithasol i blant yng Nghymru wedi dilyn tuedd ar i fyny rhwng 2010-2011 a 2017-2018, gan gynyddu tua 25% dros y cyfnod hwnnw. Fel y gwelir yn Ffigur 13, mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r dirywiad a welwyd yn Lloegr.

¹¹⁴ Dogfen ar gael yma:

https://adcs.org.uk/assets/documentation/ADCS_SAFEGUARDING_PRESSURES_PHASE_6_EXECUTIVE_SUMMARY_FINAL.pdf

¹¹⁵ Dogfen ar gael yma:

https://www.google.com/search?q=pauperisation&rlz=1C1CHBF_enGB832GB832&oq=pauperisation&aqs=chrome..69i57j0l5.3007j0j7&sourceid=chrome&ie=UTF-8#dobs=impoverishment

Ffigur 13 Esblygiad gwariant ym maes gofal cymdeithasol i blant (prisiau cyson 2017-2018)

Ffynhonnell: i Gymru: Dadansoddiad LE Wales yn seiliedig ar ddata poblogaeth a gwariant gan StatsCymru a data chwyddiant gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gan StatsCymru defnyddiwyd (i) amcangyfrifon poblogaeth fesul awdurdod lleol a blwyddyn a (ii) gwariant alldro refeniw gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid; ar gyfer data chwyddiant y gyfres berthnasol yw mynegai'r CPI Ar gyfer Lloegr: mae'r data'n deillio o'r dadansoddiad ar y cyd "Children and young people's services: Funding and spending 2010/11 to 2017/18" gwiredwyd gan Action for Children Gweithredu dros Blant, y Biwro Plant Cenedlaethol, NSPCC, Cymdeithas y Plant a Barnardo's. Mae'r data'n dangos mynegeion ar gyfer cyfanswm y gwariant yn hytrach na gwariant fesul plentyn.

Mewn ymateb i'n harolwg, nododd awdurdodau lleol Cymru bwysau cynyddol ar ofal cymdeithasol i blant sy'n derbyn gofal wrth i'w niferoedd a chymhlethdod eu hanghenion gynyddu dros amser.

Y tu hwnt i alw ac anghenion cynyddol, tynnodd awdurdodau lleol sylw hefyd at y diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i blant. Roeddent yn beio hyn ar gyllidebau sy'n crebachu. Maent yn dadlau bod y gostyngiad mewn cyllid wedi eu gorfodi i ganolbwyntio ar wasanaethau statudol, ac mae'r rhain yn gysylltiedig yn bennaf ag anghenion uniongyrchol yn hytrach nag ymyrraeth gynnar. Credai sawl ymatebydd y gallai hyn arwain at ganlyniadau niweidiol yn y tymor hir. Ar ben hynny, pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol hefyd y prinder

Ileoliadau preswyl a oedd ar gael iddynt a nodwyd bod dirlawnder capasiti'r farchnad yn eu gorfodi i leoli plant mewn preswylfeydd lle maent yn derbyn gwasanaethau yn ychwanegol at eu hanghenion.

Nododd datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018 gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)¹¹⁶ fod gwariant real ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 30% yn y degawd a ddaeth i ben yn 2018 tra bod cyllid grant craidd real ar gyfer cynghorau lleol wedi gostwng 22%. Mae'r datganiad yn nodi pedwar prif faes lle mae gofal cymdeithasol plant yn wynebu pwysau sylweddol:

- **Cymhlethdodau a gofynion allanol**, yn bennaf yng nghyswllt mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd (e.e. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant neu Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) a thlodi;
- **Ileoliadau**, gyda mwy o blant yn mynd i ofal, anghenion cynyddol gymhleth, poblogaeth gofal maeth sy'n heneiddio a chostau gofal preswyl cynyddol;
- **Deddfwriaeth a gwaith gyda'r Llysoedd**, gan fod mwy o blant yn destun achosion gofal a disgwyliadau cynyddol o ddyfarniadau cyfreithiol;
- **Gweithlu**, gan fod y sector yn llawn cyfraddau swyddi gwag a throsiant uchel.

Amlygir ymdrech barhaus awdurdodau lleol Cymru i ddiogelu gofal cymdeithasol plant hefyd gan y Grŵp Hawliau Teuluol (2018)¹¹⁷, sy'n nodi lle mae Cymru wedi ehangu rhai gwasanaethau penodol (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg).

Bydd polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn effeithio ar wariant yn y dyfodol ar wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn unol â chynigion manifestio'r Prif Weinidog yn seiliedig ar:

- *atal* (atal yr angen i blant gael eu tynnu oddi ar eu teuluoedd);
- *gweithredu ar draws y system*: gall plant sy'n mynd i'r system ofal yn y pen draw gael triniaeth gan wasanaeth gwahanol, megis iechyd meddwl neu gyfiawnder ieuenctid;
- ar gyfer pob awdurdod lleol, targedau sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y plant yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru/eu lleoli y tu allan i'w sir eu hunain/eu tynnu o ofal eu teulu/eu tynnu oddi wrth eu teuluoedd oherwydd bod gan rieni anabledd dysgu.

¹¹⁶ Mae'r datganiad ar gael yma: <https://www.adss.cymru/en/blog/view/childrens-services/fileAttachment>

¹¹⁷ *Care Crisis Review: options for change* (2018) Llundain: Grŵp Hawliau'r Teulu. Dogfen ar gael yma: https://www.frg.org.uk/images/Care_Crisis/CCR-FINAL.pdf

Er ei bod yn bosibl y gallai gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol leihau rhai costau, mae'n debygol y bydd angen gwario hefyd er mwyn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Atodiad 3 Tystiolaeth o arolwg o awdurdodau lleol Cymru

A1.7 Cyflwyniad

Yn yr Atodiad hwn rydym yn crynhoi'r atebion ansoddol a roddwyd gan awdurdodau lleol Cymru i arolwg ansoddol byr a gynhaliwyd gan LE Wales gyda chymorth caredig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Anfonodd CLILC yr arolwg drwy e-bost at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod haf 2019. Cafodd yr ymatebion eu dychwelyd i CLILC, cyn eu trosglwyddo i ni. Gofynnodd yr arolwg gwestiynau am bwysau cost gweithredol y dyfodol sy'n effeithio ar wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae trefn y penawdau isod yn adlewyrchu strwythur yr holiadur. Yn gyffredinol, cawsom ymatebion gan gyfanswm o 14 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

A1.8 Pwysau cost uned

Dros y pum mlynedd nesaf, mae'r pwysau cost prif uned y mae llywodraethau lleol wedi'u nodi yn ymwneud â chyflogau, rheoliadau, anghenion cynyddol a chostau uwch oherwydd prinder capasiti.

Y CBC sy'n cael ei dalu i gyfran uchel o staff gofal rheng flaen neu ychydig yn uwch, ac felly bydd addewid llywodraeth y DU i gynyddu'r CBC dros £9 yr awr yn rhoi pwysau sylweddol ar lywodraethau lleol. Ar ben hynny, mae ymatebwyr yn awgrymu bod cynyddu'r CBC yn aml yn arwain at godi cyflogau'r holl staff er mwyn cynnal gwahaniaethau cyflog ar draws lefelau statws gwahanol.

Tynnodd awdurdodau lleol sylw hefyd at anawsterau wrth recriwtio a chadw staff, yn enwedig pan fydd sectorau eraill (e.e. manwerthu) yn cynnig gwell amodau a chyflogau. Maent hefyd yn poeni y gallai Brexit roi rhagor o bwysau ar recriwtio. Bydd newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth, e.e. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, hefyd yn cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi a chofrestru staff.

I awdurdodau lleol gwledig, mae costau trafnidiaeth cynyddol hefyd yn broblem gan fod staff gofal cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn at ei gilydd yn teithio llawer. Dywed awdurdodau lleol hefyd fod anghenion y boblogaeth yn dod yn fwyfwy cymhleth, gan gynyddu'r gost o ddarparu gwasanaethau penodol (e.e. gofal cartref). Ar ben hynny, mae diffyg capasiti mewn rhai ardaloedd, er enghraifft mewn lleoliadau ar gyfer plant â llawer o anghenion, weithiau'n gorfodi awdurdodau lleol i leoli unigolion mewn llety drutach.

A1.9 Ffactorau sy'n lleihau costau unedau

Mynegodd rhai awdurdodau lleol amheuan ynghylch bodolaeth ffactorau a allai leihau pwysau cost unedau yn y tymor byr.

Er hynny, cyfeiriodd sawl ymatebydd at dechnolegau newydd, megis technolegau cynorthwyl, teleofal a theleiechyd, sydd â'r potensial i leihau costau yn y dyfodol. Soniwyd dro ar ôl tro hefyd am fodelau gweithio newydd, gan gynnwys symud oddi wrth ddulliau

traddodiadol i ddull mwy ataliol, cyfannol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn arbennig, mae awdurdodau lleol yn credu y gallai technolegau a modelau newydd o wasanaethau gofal cymdeithasol leihau derbyniadau i'r ysbty a'r angen i ddarparu gofal preswyl, a bod gwasanaethau gofal ychwanegol yn disodli'r olaf.

Ymhlith y ffactorau eraill a nodwyd bod dulliau comisiynu gwell, yn enwedig drwy feithrin cydweithrediad ymysg asiantaethau, rhanbarthau a chyda'r sector preifat, yn ogystal â chynyddu capasiti yn y mathau o lety sydd ar gael a faint o lety sydd ar gael. Yn olaf, soniodd sawl ymatebydd hefyd am ddod â gwasanaethau'n fewnol a sicrhau gwell eglurder ynghylch cyfraddau cyflog dros nos fel ffactorau posibl a allai leihau costau unedau yn y dyfodol.

A1.10 Effaith newidiadau deddfwriaethol diweddar

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn disgwyl y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn arwain at gostau uwch oherwydd rhwymedigaethau uwch. Bydd galw cynyddol oherwydd meini prawf cymhwysedd newidiol, yn ogystal â disgwyliadau uwch y cyhoedd, hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gostau unedau yn y blynyddoedd nesaf.

Er bod ymatebwyr yn credu y gallai pwyslais y Deddfau ar gynllunio hirdymor a gwasanaethau ataliol gynyddu costau yn y tymor byr, maent hefyd yn croesawu patrwm y newid hwn ac yn credu yn ei gost-effeithiolrwydd dros orwelion amser hwy.

A1.11 Gallu'r sector gofal cymdeithasol i ateb y galw

Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn yr atebion a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ynghylch a oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion y boblogaeth. Dywedodd rhai ymatebwyr fod anghenion yn cael eu diwallu'n llawn, tra bod eraill yn nodi anawsterau mewn sawl maes ac yn cydnabod nad oedd y galw bob amser yn cael ei fodloni. Roedd y prif ffactorau a nododd yr ymatebwyr yn cynnwys:

- materion capasiti ymhlith darparwyr, yn enwedig ar gyfer gofal cartref;
- lefelau staffio (recriwtio a chadw staff);
- adnoddau ariannol cyfyngedig cyffredinol;

Roedd y ffactorau hyn yn llesteirio eu gallu i ddarparu rhai gwasanaethau, yn enwedig i unigolion ag anghenion is, neu wedi arwain at oedi o ran yr asesiadau.

Tynnodd ymatebwyr sylw at yr anhawster o gysoni cyllidebau sy'n crebachu â disgwyliadau uwch gan y cyhoedd (hefyd oherwydd cynnydd mewn taliadau a'r Dreth Gyngor a delir) ac anghenion cynyddol gymhleth. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cyfeirio at gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn eu hymatebion ac yn croesawu'r pwyslais uwch ar wasanaethau ataliol a lles fel elfennau a allai leihau lefelau'r galw yn y dyfodol.

A1.12 Ffactorau sy'n effeithio ar nifer y gwasanaethau y bydd galw amdanynt yn y dyfodol

Yn gyffredinol, nododd awdurdodau lleol ddwy brif ffynhonnell o gynnydd yn lefelau'r gwasanaethau sydd eu hangen yn y dyfodol i ateb y galw lleol. Yn gyntaf, nododd ymatebwyr fod y pwyslais ar gynnal annibyniaeth pobl, ynghyd â datblygiadau meddygol diweddar, wedi arwain at greu pecynnau gofal cynyddol fwy cymhleth. Yn ail, maent yn nodi bod nifer y plant sy'n derbyn gofal, pobl ag anableddau dysgu ac unigolion sy'n dioddef o ddementia (a materion iechyd meddwl eraill) wedi cynyddu; ynghyd â disgwyliad oes uwch, gallai'r duedd olaf arwain at fod angen nifer sylweddol uwch o wasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn gresynu at y diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol sy'n hanfodol yn eu barn nhw i leihau lefelau'r galw yn y dyfodol. Ar ben hynny, maent yn tynnu sylw at y ffaith bod trothwyon ariannol uwch (e.e. gofynion cyfalaf uwch) yn awgrymu bod mwy o unigolion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd i dderbyn gofal cymdeithasol a ariennir gan ALL. Dywedwyd hefyd bod mynediad i lety priodol yn broblem mewn rhai ardaloedd, gan arwain unigolion i dderbyn gwasanaethau gofal yn ychwanegol at eu hanghenion.

Yn olaf, gall tueddiadau economaidd-gymdeithasol eraill roi rhagor o straen ar y system gofal cymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys: lefelau uwch o dlodi ymhlith dinasyddion sy'n arwain at fwy o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol; lefelau uwch o unigrwydd ymhlith unigolion oedrannus; materion sy'n ymwneud ag alcohol/cyffuriau; a gweithgareddau gangiau troseddol.

A1.13 Pwysau cost gweithredol eraill

Ailadroddodd llawer o awdurdodau lleol eu pryderon ynghylch recriwtio a chadw'r gweithlu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y mater hwn iddynt, ac roeddent yn poeni am effaith Brexit ar y materion hyn. Roedd pwysau gweithredol cylchol arall yn ymwneud â'r diffyg cyllid a'r toriadau diweddar yn y gyllideb; mae awdurdodau lleol yn credu bod hyn yn llesteirio eu gallu i roi modelau amgen ar waith o ddarparu gwasanaethau (e.e. canolbwyntio ar atal a lles) ac yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n strategol ac ar gyfer gorwelion amser hirach.

Nododd awdurdodau lleol hefyd y gallai dirlunio capasiti'r farchnad arwain at bwysau gweithredol ychwanegol. Ymhlith y ffactorau eraill a nodwyd gan yr ymatebwyr mae: gofynion deddfwriaethol/rheoliadol ychwanegol (e.e. yng nghyswllt asesiadau gofal iechyd parhaus); ffocws ar leihau oedi wrth drosglwyddo gofal gan symud y baich o'r GIG i'r sector gofal cymdeithasol; a phwysau cynyddol ar wasanaethau i unigolion ag anableddau dysgu.



Sophia House, 28 Cathedral Road,
Caerdydd CF11 9LJ, Cymru
info@le-wales.co.uk
www.le-wales.co.uk
• @LE_Wales
ffôn: +44 (0)2920 660 250
ffacs: +44 (0)2920 660 251